"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

YR

YMOFYNYDD.

RHYDDID, GWIRIONEDD, CARIAD.

CYFRES NEWYDD.] AWST, 1877. [RHIF 54.

CYNNWYSIAD.

TUD.

Teyrnas Dduw yn Yspryd Dyn 121
Hydrophobia, neu Ddwfr-gashad yn mhlith dynion 127
Anturiaethau Gil Blas 130
Marwolaeth Crist 132
Y Crynwr a'r Esgob 135
Cyfarfodydd Blynyddol 137
Llandyssul—Cyfarfod o gydymdeimlad â'r Parch. Wm. Thomas, M.A., (Gwilym Marles), yn ei gystudd 137
Hanesion 141
Priodasau 141
Marwgofion 142
Barddoniaeth 143

Pris Tair Ceiniog.

ABERDAR:

ARGRAFFWYD GAN JENKIN HOWELL, 16, COMMERCIAL-PLACE.

YR

YMOFYNYDD.

CYFRES NEWYDD.] AWST, 1877. [RHIF. 54.

"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda."—PAUL.

TEYRNAS DDUW YN YSPRYD DYN.

GAN Y PARCH. J. PAGE HOPPS, LEICESTER.

"Ac ni ddywedant, Wele yma; neu, Wele accw: canys wele teyrnas Dduw o'ch mewn chwi y mae."—LUC xvii. 21.

YMDDENGYS yr ymadroddion hyn i mi fel yn taro y cyweirnod i'r Eglwys Undodaidd y dydd hwn; oblegyd yr ydym ni yn sefyll yn nghanol torf o Eglwysi ydynt i gyd mewn angen o'r dystiolaeth ag ydym yn fwyaf rhydd i'w dwyn. Mae yr Eglwysi yma yn dweyd, "Wele yma," ac "Wele acw." Yma mae dynion yn gorphwys ar sacrament—acw ar offeiriad; yma ar gredo—acw ar arch Eglwysig sydd yn unig yn alluog i ddianc yr ystorm; ac maent i gyd braidd wedi annghofio gair yr athraw,—"teyrnas Dduw *o'ch mewn* chwi y mae."

Mae y beirniaid yn gwahaniaethu pa un y dylem ni ddarllen y geiriau fel maent yn sefyll yma, "Teyrnas Dduw *o'ch mewn* chwi y mae," neu "Teyrnas Dduw *yn eich plith* chwi y mae." Yn ymarferol, nid yw'r gwahaniaeth o fawr bwys; y meddwl yw, fod y deyrnas uwch yma yn deyrnas fewnol, yn dyfod nid gydag ymddangosiad allanol, nid yn ymddibynol ar adnoddau allanol,—teyrnas sylweddol iawn, gadarn iawn, a bywiol iawn; ond yn sefyll mewn cylch hollol wahanol oddiwrth deyrnasoedd cyffredin y byd. Dyma yw'r ystyr yn amlwg. Dywed yr Iesu—Ni ddywedant "Wele yma," neu "Wele acw," oblegyd, wele, nid yw teyrnas Dduw nac yma nac acw, ond o'ch mewn chwi y mae.

Yr ydym yn cael y meddwl yma drachefn a thrachefn yn yr Efengylau, ac hefyd mewn manau ereill yn y Testament Newydd. Pan y dywed yr Iesu, "Haws yw i gamel fyned trwy grai y nodwydd ddur,

nag i oludog fyned i mewn i deyrnas Dduw," yr ystyr yn amlwg yw, fod y goludog yn rhy dueddol i fod mewn sefyllfa o feddwl sydd yn annghysson â bodolaeth teyrnas Dduw oddifewn iddo. Mae'n dueddol i fod yn hunan-ddigonol, yn ymroddedig i hunan-ewyllys, yn esgeulus o bethau mewnol yn nghanol ei bryder neu ei foddlonrwydd mewn perthynas i bethau allanol; ac nis gall dyn o'r fath fyned i mewn i'r deyrnas uwch fel ag y mae, a hyny oblegyd nas gall y deyrnas fyned i mewn iddo ef. Hefyd, pan mae'r Iesu yn siarad, fel y gwna, am adael cartref, neu rieni, neu frodyr, neu wraig, neu blant, er mwyn teyrnas Dduw, mae'n amlwg drachefn ei fod yn siarad am sefyllfa o feddwl; a'r ystyr yw, y gwna y dyn gwrol a da, fel y peth blaenaf, yr hyn sydd mewn cydgordiad â'i deimlad mewnol, â'r deyrnas oddifewn, lle mae rheswm a chydwybod yn llywodraethu. Felly hefyd, pan y dywed nas gall dyn fyned i mewn i deyrnas Dduw os na fydd e' wedi cael ei eni drachefn, mae yn eithaf amlwg mai teyrnas Dduw a sonir am dani yw sefyllfa fewnol, cylch mewnol o fodolaeth; a bod yr enedigaeth newydd yn ddeffroad i sylweddau y sefyllfa neu'r cylch hwnw.

Ac yma yr ydym yn dyfod at galon y gwirionedd o'n blaen. Teyrnas Dduw mewn gair yw y byd tu cefn i'r synwyrau, ond nid byd dyfodol; teyrnas bresenol yw, ond mae'n dal perthynas yn unig â meddyliau, teimladau, serchiadau, yr ymwybodolrwydd o ddyledswydd, y cylch hwnw yn gyfangwbl o bethau ydym ni yn alw yn rhai meddyliol, moesol, ac ysprydol. Y deyrnas *yma* yw yr hon y dywedir gyda phriodoldeb ei bod hi oddimewn i ni; ac mae bod dynol yn cael ei eni drachefn mewn gwirionedd pan mae yr enaid, oddifewn, o dan, ac uwchlaw y bywyd anifeilaidd, yn dyfod yn hunanymwybodol, ac yn dechreu byw yn, trwy, ac er mwyn y pethau nad ydynt yn cael eu cyfyngu gan y synwyrau a phethau materol, nac yn ymddibynol arnynt. Yr oedd Paul yn deall hyn yn drwyadl pan y dywedai, "Nid yw teyrnas Dduw fwyd a diod, ond cyfiawnder a thangnefedd a llawenydd yn yr Ysprydd Glân,"—gwirionedd goruchel, dwfn a dwyfol. Nid yw teyrnas Dduw fwyd a diod; nid yw tufewn i gylch y byd materol o gwbl; mae ganddi ei gwreiddiau yn ddyfnach i lawr; mae iddi ei hyfrydwch mewn tiriogaeth hollol wahanol; mae, fel y dywed ef, yn gyfiawnder, yn dangnefedd, yn llawenydd,—i gyd yn fewnol,—neu fel mae ef yn ei osod, yn yr Ysprydd Glân. Yr oedd yr Apostol Ioan hefyd yn ei deall pan y dywedai, "Hon yw'r oruchafiaeth sydd yn gorchfygu y byd, sef ein ffydd,"—gwirionedd nid i freuddwydwyr, a beirdd, a phenboethion, ond i bobl blaen, cyffredin, ac ymarferol; oblegyd mae yn wirionedd syml fod y byd yn cael ei orchfygu, wedi cael ei orchfygu gan ffydd, oblegyd yr hyn a elwir yma yn ffydd yw ysprydoliaeth syniadau, gobeithion, ac ymlyniad brwdfrydig wrth achos da; ac mae y rhai hyn wedi gorchfygu breninoedd, byddinoedd, a'r mwyafrif; wedi chwyldroi ymherodraethau, wedi cyfnewid cynlluniau seneddau, ac wedi penderfynu cyfeiriad bywyd y byd.

Yr ydym ni yn byw ynte mewn dwy deyrnas, yma ac yn awr; a'r amgyffrediad dwfn, penderfynol a thrwyadl o hyn sydd yn rhoddi yr agoriad i grefydd—sydd yn rhoddi agoriad hyd y nod i fywyd beun-

yddiol y synwyrau. Mae yn gyntaf deyrnas y byd materol, byd yr hyn a elwir "y sylweddol;" ac hefyd teyrnas y byd ysprydol, y byd sydd yn cael ei alw yn "*ideal.*" Mae un yn ymddibynu ar, yn dechreu, ac yn terfynu gyda'r pethau ydynt yn boddloni y synwyrau: gall y llall hyd y nod orchfygu yr allanol, a bod yn annibynol arno. Felly hyd y nod mewn gorchwylion cyffredin, mae yn gwneyd yr holl wahaniaeth beth sydd gan bobl oddifewn iddynt. Ydyw hi ddim yn bobpeth i fod yn gyfoethog, i fod ar ochr heulog bywyd, i gael gwyliau yn awr ac eilwaith, neu i fod yr hyn mae'r byd yn alw yn llwyddianus; oblegyd gallwch fod yn gyfoethog ac yn druenus ar yr un pryd; gallwch fod ar ochr heulog bywyd, a gweled o honi ddim ond glyn cysgod angeu; gallwch gael gwyliau, etto yn cael eich terfysgu gan ofal a phryder; gallwch fod yn llwyddianus, tra mae rhyw ganer mewnol yn difa eich gwir fywyd; oblegyd mae y byd sylweddol oddifewn, a'r hyn sydd yn penderfynu'r cwbl yw teyrnas yr enaid. Gyda miloedd o bethau mewn bywyd ar wahan oddiwrth grefydd, mae y wir deyrnas oddifewn. Mae dedwyddwch yn ymddibynu i'r graddau uwchaf ar sefyllfa'r meddwl. Deng mil o weithiau mae llawenydd wedi cilio yn lladradaidd o balas y brenin, i redeg gan chwerthin i fwthyn y gweithiwr.

Etto, mae yn gamgymmeriad hollol i dybied fod y galluoedd sydd yn llywodraethu'r byd yn rhai materol. Yr oedd Napoleon yn dweyd fod rhagluniaeth bob amser wrth ochr y catrodau cryfaf; ond nid yw hyna ond hanner gwirionedd, yr hwn sydd bob amser y celwydd gwaethaf. Fe gafodd Napoleon hyny allan cyn diwedd ei fywyd er ei golled. Yr oedd ganddo ef y catrodau cryfaf; ond darfu i'w drachwant am allu, ei uchelgais, ei hunan-ewyllys alw allan yn y diwedd alluoedd teyrnas uwch trefn a heddwch cymdeithas, ac fe ddarfu i'r rhai hyn ei lethu dan eu traed, a gwneyd terfyn am byth o hono. Ond nid yw'r syniad yma mewn perthynas i'r byddinoedd cryfaf yn ddim ond profi yr hyn yr wyf yn ddweyd, oblegyd mae'r fyddin gryfaf yn amlygiad o *feddwl*, yn gynnulliad o athrylith a medr; ac mae y defnydd iawn a llwyddianus o honi yn ymddibynu ar alluoedd mewnol, ymenydd, calon, ac ewyllys. Yn wir, mewn un ystyr, gallwn ddweyd, Teyrnas y *diafol* o'ch mewn chwi y mae; oblegyd mae'r holl alluoedd yn gorwedd yno—galluoedd er drwg yn gystal ag er daioni. Yr oedd y fyddin Germanaidd, a ddaliai, yn ystod y rhyfel mawr diweddaf, holl Ffrainc ar gledr ei llaw, yn gorffoliad o feddwl; meddwl a'i cynlluniodd, meddwl a'i casglodd, meddwl a'i ffurfiodd, meddwl a'i trefnodd, a'i symmudodd, a'i rhanodd, a'i hunodd, ac a'i gyrodd i mewn i galon Ffrainc, fel saeth neu daran-follt Duw; a pha un a oedd achos Germani yn dda neu yn ddrwg, pa un a oedd Germani yn gwneyd gwaith oedd ddwyfol neu gythreulig, mae ei buddugoliaethau yn sefyll allan, nid fel enghraifft o allu teyrnas faterol, fel mae llawer yn meddwl, ond fel amlygiad dwfn o'r gwirionedd fod y deyrnas wirioneddol a nerthol oddifewn.

Ac fe ddengys hyn i ni ystyr ddwfn y dywediad mawr hwn, "Teyrnas Dduw o'ch mewn chwi y mae." Y mae hyn oblegyd nad yw'r pethau

sydd tuallan i ni ddim ond offerynau yn unig, mater marw, cysgodau sydd yn diflanu; tra mae byd mewnol y meddwl, ewyllys, cydwybod, cariad, casineb, gobaith, ofn, dychryn, gorfoledd, yw'r byd gwirioneddol—y byd sydd yn symmud y cysgodau a dybiwn ni yw y pethau gwirioneddol—y byd sydd yn penderfynu pobpeth, sydd yn ffurfio dinasoedd ac yn eu creu, yn adeiladu gorseddau ac yn eu dymchwelyd, yn creu crefyddau ac yn eu gordyfu, yn galw i fodolaeth fyddinoedd, llyngesoedd, a seneddau,—mewn gair, yn defnyddio mater, ie, cig a gwaed eu hunain, fel ei gyfryngau a'i offerynau. Mae hyd y nod teyrnas dyn oddifewn—pa faint mwy teyrnas Dduw!

Y fath oleuni rhyfeddol mae hyn yn daflu ar foesoldeb, ar ddyledswydd, ac ar grefydd. Os ydyw teyrnas Dduw o'n mewn ni, mae yn canlyn fod *moesoldeb* yn dal perthynas hanfodol â chymhelliadau, teimladau, a serchiadau. Nid ymddygiad yw yn unig; mae yn ymddygiad fel yn tarddu allan o deimlad. Nid yw'n waith yn unig; ond mae'n waith sydd yn cael ei ysprydoli gan gymhelliadau. Yma y gallwn weled fod elfen o wirionedd yn gorwedd odditan yr hen arferiad uniawngred o ddibrisio "moesoldeb yn unig;" ac er fy mod i mor barod â neb i daflu diystyrwch ar yr ymadrodd yna, etto mae gwythien deneu o wirionedd ynddo; oblegyd mae y fath beth â moesoldeb nad yw ddim ond *sham*, ddim ond *gilt*, yn ddim ond gwneyd ystumiau; ac os dyna beth yw meddwl yr uniawngred pan y soniant am "foesoldeb yn unig," os meddyliant ymddygiad heb un berthynas â gwir deimlad, gweithredoedd heb un berthynas â chymhelliadau dwfn, heb fod yn rhedeg allan o ffynnonellau mewnol ewyllys da, cariad, a'r teimlad o ddyledswydd, yr wyf yn meddwl eu bod yn iawn; oblegyd mae teyrnas Dduw oddifewn i ni, ac mae'r deyrnas foesol oddifewn i ni, ac mae ffynnonell pob gwir waith oddifewn i ni; ac amcan mawr bywyd, mor bell ag mae a fyno moesoldeb ag ef, yw puro a derchafu bywyd y meddwl, y gydwybod, a'r ewyllys.

Y fath oleuni mae hyn yn daflu hefyd ar *ddyledswydd!* Gan fod teyrnas Dduw oddifewn, mae'n canlyn fod dyledswydd pob dyn yn gyfyngedig i'w gymhwysder a'i amgylchiadau. Ac mae rhywbeth yn gyssurlawn ac yn gynnorthwyol iawn yn hyn. Mae fel pe byddai'r gair yn dyfod at bob un: "Teyrnas Dduw o'ch mewn chwi y mae." O'ch mewn *chwi*,—brenin a chardotyn, tywysog a gwladwr, seneddwr a masnachwr, athraw ac ysgolhaig, rhieni a phlant; o'ch mewn *chwi*, sydd newydd ddechreu bywyd; o'ch mewn *chwi*, yr hen bererin blinedig sydd yn mron cyrhaedd y terfyn. Felly mae'n canlyn fod deddf y deyrnas o'ch mewn chwi, a beth yw hono ond eich cydwybod? ac mae gwaith y deyrnas o'ch mewn chwi, a beth yw hyny ond y cymhwysderau sydd ynoch? ac mae brenin y deyrnas o'ch mewn, a phwy yw hwnw ond Duw? Nid oes dim, ynte, i'n digaloni, ond pobpeth i'n cefnogi yma. Mae pob peth yn syml, yn gyfiawn, ac yn dda. Dyledswydd pob un o honom yw byw ei wir fywyd ei hun, yn ffyddlon ddydd ar ol dydd i ddeddfau y deyrnas sydd yn cyrhaedd ato lle y mae.

Ond yn ddiweddaf, ac feallai y mwyaf amlwg o'r cwbl, mae hyn yn dadguddio gwir natur crefydd. Ac yn ngoleuni y geiriau yma yr ydym

yn gweled oferedd yr arddangosiad rhy gyffredin o grefydd fel peth allanol. I'r diriogaeth yma o eiddo crefydd mae dyn wedi gwthio i mewn gyda'r syniadau anianol a materol, gyda'r anallu i werthfawrogi neu i orphwys mewn unrhyw beth nad yw yn apelio at y synwyrau. O'r ffynnonell yma mae wedi dyfod y grefydd babyddol, gan ei bod yn boddloni angenion y natur ddynol, druan, tra yn glynu wrth y gweledig a'r allanol. Mae pabyddiaeth yn cyfarfod â'r angenion yma trwy roddi rhywbeth i bob synwyr—rhywbeth i edrych arno, rhywbeth i'w glywed, rhywbeth i gyffwrdd ag e', rhywbeth i'w fwyta, ïe, ac hyd y nod rhywbeth i arogli :—darluniau, canwyllau, croesluniau, dwfr santaidd, allor, arogldarth, gorymdeithiau, corff a gwaed Duw ellir eu bwyta, ac offeiriad i wrando cyffesiadau ac i siarad geiriau gollyngdod. A ydyw yn rhyfedd fod pabyddiaeth wedi llwyddo ? Ac o'r un ffynnonell mae'n dyfod llwyddiant cyfundrefnau crefyddol ydynt wedi eu sylfaenu ar gredoau, ac ar yr hyn a elwir "ffydd." Mewn ffordd arall, mae y rhai hyn yn apelio yn gymhwys at yr un angenion ag mae defodaeth y pabydd yn wneyd. Maent yn cynnyg rhywbeth penderfynol, gweledig, ac allanol. Yr un peth ellir ddweyd am adfywiadau crefyddol, oblegyd er fod adfywiadaeth *(revivalism)* a phabyddiaeth mor bell oddiwrth eu gilydd â'r pegynau, maent yn ymddibynu ar yr un gwendidau yn y natur ddynol am eu llwyddiant. Ond i chwi ddyfod ac ymgrymu, a chyffwrdd â'r dwfr santaidd, a bwytta y *wafer* santaidd, a chyffesu i'r offeiriaid santaidd, byddwch yn ddyogel, medd y pabydd. Dim ond i chwi ddyfod a chredu—credu yr hyn yr wyf fi yn ddweyd wrthych chwi, credu yn y gwaed, yna oes gyda chwi ddim i'w wneyd, oes gyda chwi ddim i ddysgwyl am dano ; dim ond i chwi gredu yn y gwaed, fe gewch eich achub, medd Moody a Sankey. Ac mae'r natur ddynol nas gall ymddibynu arni ei hun, a chael boddlonrwydd i'w hangenion *oddifewn*, yn gafaelyd yn y rhodd a estynir iddi yn y ddau achos. Ond, dywed Crist, "Teyrnas Dduw o'ch mewn chwi y mae." Nid yw yn ddefodaeth, yn eglwys, yn offeiriad, yn gyffesiad, yn sacrament, nac yn waed iawnol : teyrnasiad Duw yn yr enaid yw.

Mae dyn yn dweyd wrthyf, "Beth ydwyf fi i gredu ? Yr ydych chwi yn dweyd un peth, ac mae'r pregethwr yna yn dweyd peth arall, ac mewn ugain o wahanol eglwysi gallaf glywed ugain o ddesgrifiadau gwahanol o'r gwirionedd. Beth wnaf fi ?" Yr wyf yn ateb :—Nid yw teyrnas Dduw gyda neb o honom ni : nid yw yn yr Eglwys Undodaidd, nac yn yr Eglwys Drindodaidd : nid yw yn cael ei chyfyngu gan derfynau Catholic na Phrotestant : nid yw ei hagoriadau yn fy llaw i, nac yn llaw neb arall ; ond teyrnas Dduw o'ch mewn chwi y mae. Dyna lle mae eich brenin, ar orsedd rheswm, ar frawdle cydwybod, wrth allor y galon. Ewch adref ar eich pen eich hun, annghofiwch Undodiaeth, Trindodiaeth, Pabyddiaeth, a Phrotestaniaeth, a dywedwch wrth Dduw,—"Dos yn awr, fy Mrenin, dos i dy deyrnas gyfreithlawn ; llywodraetha fi, cyfarwydda fi, a gorchymyna fi :" ac o'm rhan fy hun, wna i ddim ceisio amheu doethineb y cynllun yna ; oblegyd i bob un mae teyrnas Dduw oddifewn,—dim ond i ddyn

fod yn sicr nad yw e' ddim yn cymmeryd llais y mwyafrif, na llais arferiad, yn lle llais dyledswydd neu orchymyn ei Dduw.

Mae un meddwl etto yn aros:—Mae'r deyrnas fewnol yn deyrnas arosol. "Y pethau a welir sydd dros amser, ond y pethau ni welir sydd dragywyddol." Pe byddai pob peth sydd yn perthyn i'r synwyrau yn syrthio ymaith, pe byddai'r byd materol trwy ryw gyffyrddiad dirgelaidd yn diflanu, pe byddai'r môr a'r mynydd, y goedwig a'r ddinas, ïe, pe byddai dynolryw, mor bell ag y mae y rhai hyn yn bethau gweledig, yn cael eu symmud ymaith, a'u lle nid edwyn ddim o honynt mwy, a ydych chwi yn meddwl y byddai y cwbl yn wag? Yr wyf yn dweyd na fyddai; fe fyddai llen y deml yn cael ei rhwygo yn ddau, a buasai diwedd ar yr hyn sydd *gyfnewidiol;* ond byddai'r wir deyrnas, y byd o'r hwn mae'r holl bethau allanol yma wedi deilliaw, byddai yna; oblegyd mae teyrnas Dduw fel Duw ei hun, tufewn a thuhwnt i'r llen sydd yn cyfryngu rhwng y cysgod a'r sylwedd.

Gan fod teyrnas Dduw ynte yn bodoli yn nhiriogaeth pethau meddyliol, moesol, ac ysprydol, mae yn deyrnas dragywyddol. Mae pob teyrnas arall yn dadfeilio ac yn pasio ymaith; mae cenedloedd yn codi ac yn syrthio, ymerodraethau yn tyfu ac yn gwywo; mae pob peth a welir yn diflanu ac yn cilio ymaith fel breuddwyd. Meddwl yn unig sydd yn dragywyddol, ac i'r cylch hwnw mae teyrnas Dduw yn briodol yn perthyn. A ydyw 'mo hyn yn ein cyfeirio ni at wir ffynnonell gwybodaeth, at wir ddirgelwch tangnefedd, at wir sylfaen cymmeriad, at wir amcan bywyd? Pan yr ydych wedi dysgu y cwbl ellir ei wybod am y byd materol, nid ydych chwi etto ond ar ymyl allanol pethau; pan yr ydych chwi yn cael mwynhad yn nheyrnas y synwyrau, yr ydych yn ymddibynu ar bethau sydd yn drist o gyfnewidiol; pan yr ydych yn adeiladu cymmeriad i fyny yn unig ar ffasiwn, arferiad, a chwstwm, mae'n dueddol i fod yn beth brau, egwan, a disylwedd; pan yr ydych yn gweithio yn unig dros y materol, yr ydych yn pentyru i fyny lwch a lludw a ddichon eich dallu a'ch mogi; ond tiriogaeth y meddwl yw tiriogaeth y sylweddau arosol; teyrnas yr ysprydyw teyrnas y galluoedd tragywyddol. Amcanwch at hono, hiraethwch am dani hi, gwnewch aberthau drosti, gwnewch eich hunain yn sicr o honi, ac fe brofwch wirionedd y dywediad mawr yma—"Teyrnas Dduw o'ch mewn chwi y mae." Fe'i profwch yn awr ac yma; fe'i profwch yn fwy pan y trowch eich gwyneb tua'ch cartref, ac y tynwch eich traed i farw; fe'i profwch yn fwy byth pan y byddoch wedi ennill eich derchafiad, ac wedi cael meddiant o'r deyrnas dragywyddol.

W. J.

Nis gall hwnw byth siarad yn dda, yr hwn nid yw byth yn dal ei dafod. Un peth yw siarad llawer, peth arall yw siarad i bwrpas. Nid yw llawer o dafod a llawer o ddoethineb nemawr byth yn myned gyda'u gilydd. Mae siarad a meddwl yn ddau allu gwahanol, ac y mae yn y cyffredin fwy o ddyfnder lle byddo llai o swn.—*L' Estrange.*

HYDROPHOBIA, NEU DDWFR-GASHAD YN MHLITH DYNION.

(*Allan o "Chambers' Journal" am Awst 5ed*, 1848.)

O'R braidd nad ellir tybied fod *hydrophobia* neu ddwfr-gashad yn glefyd arosol, ond mewn dull gwahanol, yn mhlith y gymdeithas ddynol, yn ogystal ag yn mhlith cwn. Mae'r dosparthiadau isel o'r bobl yn neillduol yn ymddangos fel pe baent yn meddu rhyw hir-feddianol hawl i ddyoddef oddiwrth y clefyd. Nid yw arddulliad yr afiechyd yn y goddefydd dynol yn cyfeirio at ddiwedd mor sydyn ac echryslawn ag eiddo y goddefydd yn mhlith y cwn; ond y mae iddo ganlyniadau yr un mor ddrwg. Gwynebau bryntion, dillad bryntion, tai bryntion, budreddi (*dirt*) dros y cwbl, ydynt yr arwyddion a dynant sylw yn fwyaf nerthol. Ond er cynddrwg ydyw y rhai hyn, yr ydym yn gwybod fod gwaeth effeithiau odditan y wyneb; canys lle yr â budreddi anianyddol, yno hefyd y trigfana gwaradwydd moesol.

Nis gwyddom am un wlad arall yn Ewrop lle mae'r bobl yn meddu ar gyn lleied o duedd ag sydd yn mhobl y wlad hon i roddi iddynt eu hunain hyd y nod y fath olchiad bywiogol a geir trwy ymdrochi. Yn yr adeg bresenol, cenfydd yr ymdeithydd ar y Cyfandir yr afonydd yn fyw o nofwyr; a chofus genym, pan yn hwylio lawr y Loire tua Nantes, weled yr agerlong yn aml yn cael ei chylchynu â thorfeydd o benau duon ac ysgwyddau gwynion, yn fwyaf neillduol pan yn dynesu at y ddinas fawr law-weithiol. Yn Rwssia, lle nid yw'r werin wedi dyfod yn mhellach yn mlaen mewn gwareiddiad nag ydoedd y canol oesoedd, nid yw yr iselraddau etto yn gwybod defnydd crys, ond gwisgant ef fel pais (*kilt*) dros y llodrau. Nid ydynt, er hyny, wedi rhoddi i fyny yr ymdrochfa. Tua diwedd yr wythnos blinir hwy â theimlad pigog ac annghyssurus yn y croen, ac o'r diwedd rhuthrant i'r agerdd twym, ac wedi berwi allan anmhureddau y chwech diwrnod blaenorol, dechreuant fywyd drachefn gydag egni adnewyddol. Yn yr haf nid arosant am ddyddiau neu amserau neillduol, ond codant awr yn foreuach a neidiant i mewn i'r llyn neu'r afon agosaf. Yn ein gwlad buredig (?) *ni* nid yw bryntni yn achosi un anesmwythder. Goddefir iddo galedu ar y croen, i dagu y chwys-dyllau a llygru yr holl fôd yn foesol ac yn anianyddol. Mae yn pylu y synwyrau a'r teimladau i'r fath raddau fel nad yw'r gwr yn ei ganfod yn y wraig, na'r fam yn ei phlentyn. Mae pawb yn unwedd. Mae pawb wedi fforffedu bonedd y natur ddynol, ac wedi suddo i radd is o fodolaeth anifeilaidd.

Tra'n crybwyll am y ddefod sy'n bodoli yn Rwssia, tarewir ni â'r prawf a roddir yno o'r cyssylltiad sydd rhwng glendid moesol ac anianyddol. Mae cyflwr ymolch-dŷ y pentref yn ddangoseg anffaeledig o gymmeriad a sefyllfa ei drigolion. Os bydd yn lân a thrwsiadus, mae'r bobl yn dda ac hapus, a'u harglwydd gwriogaethol yn fwyn ac ystyriol; os bydd yn dlawd ac yn adfeiliol y mae gormes ar un llaw, truenusrwydd ar y llall, a llygredd ar y ddwy.

Mewn perthynas i'w heintusrwydd (*contagiousness*) neu ei dueddiad ;

ymledu, nid yw y clefyd dynol yn ol i'r un sydd ar y cwn, er fod ei arwyddion uniongyrchol yn llai gwenwynig. Y mae wedi cael ei awgrymu fod ystaen budreddi yn arledu o groen dyn dros ei fywyd a'i ymddyddan. Ond y mae yn gwneyd mwy nâ hyny; mae yn llygru ei deulu, yn llychwino ei gymmydogion, ac yn ffurfio canolbwynt o gylch yr hwn y mae anmhuredd yn ymgasglu, ymgryfhau ac ymledu. Yn ddibwys, ar y cyntaf, ac ynddo ei hun, tyfa mewn amser, i ddrwg cymdeithasol mawr. Mae yn un o'r unigolion a rydd ei nodwedd i'r cyfanswm. Yn codi oddiwrth yr hyn nad oedd yn cael, ar y cyntaf, ond ei ddirmygu gan chwaeth dda, ei ochelyd gan wrthwynebiad unigol, neu, ei watwaru gan ffolineb trylwyr, gwelwn ddrygioni, trueni, mallhaint a marwolaeth yn ymledu dros y tir. Etto, edrychwn ar arwyddion y clefyd ofnadwy hwn â llygad gloew ac anofalus, tra mae'r dwfr-gashad yn mhlith cwn yn ein llanw ag arswyd â braw, ac yn ein gyru mewn hunan amddiffyniad i'w lladd.

Yn y deiliaid dynol gwelwn ddwfr-gashad mewn ffurf arall yn mha un y canlynir ef gan effeithiau gwahanol, ond yn dal perthynas, nid pell, a'r rhai blaenorol. O'r braidd nad yw yn ymddangos ei fod yn cael ei deimlo yn gyffredinol, fod defnyddio dwfr fel peth yfed yn fath o ddedfryd wreiddiol wedi ei mabwysiadu fel cosp am bechodau dynolryw. Yn mhob man ymdrechir ei ffugio *(disguise)* yn y fath fodd fel y byddo'r goddefydd yn credu ei fod yn llyncu rhywbeth arall. Mae llawer o ddyfeision wedi eu gwneuthur i'r pwrpas yma; ond, mewn cyflyrau neillduol o gymdeithas, ymddengys nad ydyw o fawr pwys pa flâs a ychwanegir na thrwy ba foddion y gwneir yr ychwanegiadau. Y prif beth ydyw cyfnewidiad. Yn mhlith y graddau tlotaf o'r Chineaid teimlir fod dyferwad o ddail bresych yn gynnorthwy; yn mhlith yr uchelradd defnyddir adflas y ddeilen dê. Yn y rhan orllewinol o'r byd cyfaddasir ysgubion ffrwythau ac ŷd wedi eu heplesu a'u distyllio. Troa'r Norman ei afal-ddiod (*cider*) dda i fath o frandi atgas; camdrinia'r lleill o'r Ffrancod eu gwin mewn cyffelyb fodd. Yn Rwssia, troir y *quass* clafychus i'r *votki* ynfydus. Yn yr Alban fferyllgoethir y ddiod-ddwy onest i'r perwirod (*whisky*). Felly y mae drwy'r holl fyd. Sicrhëir mai agweddiad ydyw'r dwfr-gashad hyn o'r llall drwy'r ffaith mai y rhai a gasânt ddwfr fwyaf fel glanhaydd a'i casânt ef, hefyd, fwyaf fel diod. Ymostynga dyn glân yn aml i gymmeryd llwnc o'r elfen bur gyda'i brydiau; ond ni welsoch erioed ddyn a chanddo wyneb budr na fyddai llawer gwell ganddo gael rhyw gymmysgedd drygflas a gwenwynig. Ar fyrddau yr uchelraddau y gostrel-ddwfr a ddefnyddir yn benaf; ond ar eiddo yr iselraddau yr ysten gwrw. Nid ydyw ansawdd y cwrw o unrhyw bwys. Yn mhlith llwyr-ymwrthodwyr â'r diodydd meddwol hyn, y mae llaweroedd a fynant ffugio eu dwfr. Hyny a achosa eu dewisiad o ddiodydd yr eurafalau a'r ddiod sinsyr, yn nghyd a chymmysgiadau gweinion ereill, y rhai ydynt fe ddichon, yn gydmariaethol ddiniwed. Mae'r cwbl yn ein hadgofio o waith llenyddol a gyhoeddwyd yn Llundain tuag ugain mlynedd yn ol gan drwsiwr gwallt. Yn y gwaith hwnw rhoddwyd cofres o'r nwyddau amrywiol a arferir i sebondrwytho'r farf; ond

gadawyd un nwydd allan, canys yr oedd yr eilliwr mawrfrydig yn dirmygu enwi—sebon.

Nid yw y cyssylltiad a fodola rhwng y ddau fath o ddwfr-gashad a ddarluniwyd yn gofyn ond ychydig eglurhad. Pa fryntaf y byddo dyn yn ei berson, ei deulu, ei dŷ a'i gymmydogaeth, mwyaf heintus ydyw'r dyfeisiadau a ddefnyddia i ffugio blas y dwfr casedig. Mewn geiriau ereill, y mae cynnydd y clefyd yn cael ei naturiol ddangos yn angerddoldeb ei arwyddion. Gellir gweled dyn o lendid arddunol yn yfed dwfr pur; gydag ychydig o naws gwendid dynol geill un hefyd ymfoddhau, yn achlysurol ac yn gymmedrol, mewn cwrw, a gwin, neu, hyd y nod mewn darllawiau cryfach. Ond y mae y dwfr-gasâwr gwirioneddol—yr ysgelerddyn brwnt, anfoesgar hwnw ac y mae'r plant ar yr heol yn ei adnabod a'i ddadguddio hyd y nod pan ddygwydd fod yn sobr—yn syfrdanu ei hun yn feunyddiol a'r math waethaf o alcohol. Onid yw yn ymddangos fod gwahaniaeth anheg yn cael ei wneyd yn ein triniaeth o'r goddefwyr yn mhlith dynion a chwn? Nid ydym yn awgrymu y dylid cynnyg hwtian ac hela y cyntaf, fel y diweddaf, allan o gymdeithas, neu, ynte, y dylent gael eu baeddu â ffyn a cheryg, eu saethu, eu gwenwyno, eu crogi neu eu boddi. Efallai na hoffant hyny. Gallai hyny achosi anfoddlonrwydd. Byddai yn well, fe ddichon, gadael hyny yn llonydd a cheisio trefnu rhyw ffordd arall. Ond pa ffordd arall? Pa fodd yr atebai sugnedydd (*pump*) ar bob pen yr heol a'r rhai hyny i gael eu gweithio gan yr heddgeidwaid? Gellid dal y tramwywr heibio a fyddai'n dygwydd dyoddef dan naill ai'r ffurf fudr neu feddw o'r clefyd, ei ddodi dan y pistyll a gweinyddu'r feddyginiaeth mewn cyfartaledd i angerddoldeb y dolur. Ffolineb yw dywedyd y byddai hyn yn droseddiad ar ryddid y deiliaid; canys os nad oes gan gymdeithas hawl i atal dolur heintus drwy bob moddion yn ei gallu, byddai yn llawn cystal i ni ar unwaith osod o'r neilldu ymarferion gwareiddiad a myned ffwrdd etto i goedydd ac ogofau. Y meddyg galluocaf yn y byd ydoedd Pedr Fawr, ac ni fyddai yn afreidiol pe cymmerem wers o'i ysgol. Y prif rwystr yn ffordd ei gynllun i wareiddio Rwssia ydoedd barfau ei bendefigion. Ofer oedd edrych am ddysgu coethiad Ewropïaidd i ddyn a chanddo farf fawr, blethedig ac aflan. Ceisiodd ddystrywio grym anfoes trwy bob ystryw Ddelilaidd a allasai feddwl am dani. Yr oedd yr oll yn ofer, a gorfu iddo ddefnyddio y mesur eithafol a ganlyn:—Anfonodd allan fyddin o eillwyr pa rai a ruthrasant ar yr anfoddogwyr yn eu coedwigoedd genedigol, eilliasant eu barfau a thrwy eu grym rhagorach,

> "Tynasant yr anfoddog anwar,
> I oleuni dydd."

Mae'n debyg y gellir gydag amser gynnyg rhyw gynllun fel yr uchod gan fod y chwaer-ddolur, Anwybodaeth, eisoes yn cael ei thrin a meddyginiaethau gorfodol. Pan welir bachgenyn brwnt a charpiog yn heolydd rhai o'n trefydd mwyaf gwareiddiedig, ymeifl yr awdurdodau ynddo ac anfonant ef i'r ysgol. Dylai mewn cyffelyb fodd gael ei anfon dan y pistyll: gellweh fod yn sicr y byddai hyny yn gym-

horth mawr i'w addysg. Pan gymmerir troseddwyr i'r carchar, y peth cyntaf a wneir iddynt yw eu golchi a'u glanhau. Mae hyn yn eithaf priodol; ond yn ddiau y mae dangos mwy o ofal am iechyd ein carchardai nag am iechyd ein haneddau yn ynfydrwydd. Pe buasai'r dynion yn cael eu golchi mewn pryd, ambeus genym a fuasent wedi dyfod yn ddrwgweithredwyr o gwbl.

Drefnewydd-y-Nottais, Ebrill, 1877. W. B.

ANTURIAETHAU GIL BLAS.

(Chwedl Yspaenaidd.)

Cyrhaeddais P—— yn ddyogel, sefais wrth dafarndŷ gweddol yr olwg arno, ac nid cynt y disgynais nag y darfu i'r tafarnwr fy nerbyn gyda moesgarwch mawr. Arweiniwyd fi i ystafell yn y tŷ, ac arweiniwyd fy mul i'r ystabl. Yr oedd y tafarnwr hwn, (siaradwr mwyaf yr holl wlad) mor barod i adrodd ei helyntion ei hun heb gael ei holi ag oedd i holi helyntion ereill pan nad oedd croesaw iddo. Dywedodd wrthyf mai ei enw oedd Andrew Corcuelo; ei fod wedi gwasanaethu amryw flynyddau yn y fyddin, fel rhengyll, ei fod wedi gadael y fyddin ryw bumtheg mis yn flaenorol, er priodi llauces o Castnopol, yr hon er ei bod dipyn yn afrosgo, a wyddai y ffordd i "drafod y tocins."

Dywedodd wrthyf fil o bethau ereill ag y gallwn i fod yn gyssurus heb eu clywed; ond ar ol iddo ef ddweyd ei gyfrinach wrthyf fi, meddyliai fod ganddo hawl i ddysgwyl cyffelyb ymostyngiad oddiwrthyf finau; a chan hyny, gofynodd o ba le y daethum, i ba le yr oeddwn yn myned, a phwy oeddwn. Gorfodid fi i ateb erthygl wrth erthygl—canys yr oedd pob gofyniad yn cael ei wneyd gyda'r fath foesgyfarchiad ymostyngol; a chyda'r ddymuniad am i mi esgusodi ei gywreinrwydd fel nas gallwn wrthod rhoddi iddo yr holl fanylion. Yn ystod y siarad hirfaith a gymmerodd le, cefais gyfle i'w hysbysu fy mod yn bwriadu gwerthu y mul, a myned yn mlaen gyda'r *carrier*. Cymmeradwyai efe fy mwriad, etto, yr oedd yn dra aneglur, a darluniai yr holl ddygwyddiadau annymunol a allai ddod ar ein gwarthaf; dywedodd lawer o ystoriau cethin am drafaelwyr, hyd nes yr oeddwn yn ofni na chawswn daw arno; fodd bynag, tynodd at y terfyn drwy fy hysbysu, os oeddwn am werthu fy mul, ei fod yn adnabod *jockey* gonest ai prynai. Sicrheais y byddwn yn rhwymedig iddo os anfonai am dano, yr hyn a wnaeth gyda chryn barodrwydd.

Daeth y dyn cyn hir, a chyflwynwyd ef i mi gan y tafarnwr fel person o onestrwydd dirfawr; yna aethom i'r buarth gyda'n gilydd. Dacthpwyd a'r mul allan, a pherwyd iddi gerdded ac ail gerdded o flaen y *jockey*, yr hwn a'i harchwiliodd o'i phen i'w throed, a'r hwn hefyd ni fethodd a siarad yn fychanus am dani. Yr wyf yn addef nad oedd llawer yn ffafriol i'w ddweyd am dani, ond credwyf pe buasai mul

y Pab yno, y byddai iddo gael rhyw ddiffygion ynddi. Sicrhaodd fi fod arni yr holl feiau a allai fod ar ful, ac i'm hargyhoeddi o'i eirwiredd, apeliodd at y tafarnwr, yr hwn yn ddiamheu a feddai ei resymau dros gadarnhau haeriadau ei gyfaill.

"Wel," ebai'r masnachwr mewn dull didaro "faint ydych chwi yn ofyn am y creadur truenus hwn?"

Ar ol ei ganmoliaeth ef, yn nghyd a chadarnhad y tafarnwr, yr hwn a gredwn oedd ddyn gonest, deallus, yr oeddwn yn barod i roddi iddo y mul am ddim, gan hyny, dywedais wrtho fy mod yn gadael ar ei gywirdeb ef, a gofynais iddo brisio yn ol ei gydwybod, ac y cai ei brisiad sefyll. Ar hyn gosododd ei hun i fyny fel dyn o anrhydedd, a hysbysodd fi, fy mod wrth ymrwymo ei gydwybod yn ymosod ar ei ochr wan. Ac mewn difrif, nid ymddangosai ei bod yn ochr gref iawn, canys yn lle ei phrisio yn werth deg neu ddeuddeg *pistoles*, fel y gwnaeth fy ewythr, darfu iddo sefydlu ei gwerth yn dri *ducat*, y rhai a dderbyniais gyda chymmaint o lawenydd a phe buaswn wedi gwneyd bargen dda.

Ar ol cael gwared o'm mul, a settlo â'r *carrier*, dychwelais i'r dafarn yn nghwmni Corcuelo, yr hwn ar y ffordd a ddechreuodd hanes y *carrier*. Dywedodd wrthyf am ei helyntion a'i gymmeriad, yn fyr tybiais ei fod yn myned i'm syfrdanu a'i gleber annyoddefol. Ataliwyd yr anffawd hyny drwy i ddyn o ymddangosiad da, gyfarch y tafarnwr. Gadewais hwynt gyda'i gilydd, heb dybied am foment fod ei hymddyddan yn perthyn dim i mi.

Ar ol cyrhaedd y tŷ, a chael fy swper yn barod, eisteddais wrth y ford, ond nid cynt yr oeddwn wedi llyncu y tamaid cyntaf, nag y daeth y tafarnwr i mewn yn cael ei ganlyn gan y dyn yr hwn a'i cyfarchodd ar yr heol. Ymddangosai y milwr ieuanc hwn, a'r hwn a gariai gleddyf hir, tua deng mlwydd ar hugain oed. Neshaodd ataf yn awyddus, a dywedodd:—"Mr. Myfyriwr, hysbysir fi mai chwi yw Signor Gil Blas o Santellane, yr hwn yw gorddysgleirdeb athroniaeth, ac addurn Oviedo! A yw yn bossibl mai chwi yw y drych gwybodaeth, meddiannydd yr athrylith aruchel hono, clod pa un sydd mor fawr yn y wlad hon? Nis gwyddoch chwi," ebe 'fe, gan gyfarch y tafarnwr a'i wraig, "nis gwyddoch chwi beth ydych yn ei feddiannu! Y mae genych drysor yn eich tŷ! Gwelwch, yn y boneddwr ieuanc hwn, wythfed rhyfeddod y byd!" Yna gan droi ataf fi a thaflu ei freichiau am fy ngwddf, "Maddeuwch i mi" gwaeddai, "nis gallaf gynnwys y llawenydd y mae eich presenoldeb yn greu."

Nis gallwn ateb am enyd, canys cloai fi mor dyn yn ei freichiau, nes yr oeddwn bron a mogu, ond ar ol i mi gael fy rhyddhau dywedais:—"Signor Cavalier, nid oeddwn yn tybied fod fy enw yn anadnabyddus yn y lle hwn."

"Yn anadnabyddus?"g waeddai yn ei don flaenorol. "Yr ydym ni yn cadw cofrestr o'r holl enwogion o fewn can milldir. Yr ydych chwi, yn enwedigol yn cael eich ystyried yn rhyfeddod; ac nid oes ynwyf yr amheuaeth leiaf na fydd Yspaen mor falch o honoch un diwrnod ag oedd Groeg o'i Saith Doethawr."

Canlynwyd y geiriau hyn gyda gwasgiad arall, a gorfodid fi i'w ddyoddef. Dylaswn wybod oddiwrth ei weniaith ddisynwyr ei fod yn un o'r bolerwyr hyny ydynt i'w cael yn mhob tref; a'r rhai pan gyrhaeddo ymdeithydd, a gyflwynant eu hunain iddo er cael llanw ei boliau ar ei draul. Ond yr oedd fy ieuenctid a'm gwagedd yn peru i mi dybied yn hollol i'r gwrthwyneb, ac ymddangosai fy edmygedd yn gymmaint o foneddwr fel y ceisiais ganddo gyfranogi o'm swper.

"O, gyda'm holl galon," ebe fe, yr wyf yn rhy ddiolchgar i'm ser am fy nwyn i gydnabyddiaeth a'r enwog Gil Blas, i beidio mwynhau fy nedwyddwch, mor hir ag y gallaf. Yr wyf yn addef" ebe fe, "nad oes genyf ryw lawer o archwaeth at fwyd, ond eisteddaf i gadw eich cwmni, ac archwaethaf o'ch bwyd yn unig er mwyn eich boddio."

Gan ddywedyd felly, eisteddodd i lawr a dechreuodd fwyta, a bwytaodd gyda'r fath awch a phe buasai wedi ymprydio am dri diwrnod. Gorfu i mi alw am gyflenwadau drachefn a thrachefn. Yfai hefyd mewn cyfartaledd, weithiai yfai fy iechyd i, brydiau ereill iechyd fy nhad a'm mam, hapusrwydd pa rai o fod yn feddiannol ar y fath fab, nis gallai efe fawrygu yn ddigonol. Gwnai i minau hefyd yfed yr un faint. Aeth pethau yn mlaen fel hyn yn hir, bwytaem, yfem, a chanmolem y naill y llall yn ddiarbed. O'r diwedd wedi iddo orlwytho ei hun, tybiodd ei fod yn briodol iddo godi oddiwrth y ford a'm hanerch yn y geiriau canlynol:—"Signor Gil Blas, Yr wyf wedi cael fy moddloni yn rhy dda wrth eich bwrdd, i ymadael a chwi, heb gynnyg i chwi gynghor pwysig; a chynghor ag y mae ei eisieu yn fawr arnoch. O hyn allan gochelwch weniaith, a byddwch ar eich gwyliadwriaeth rhag pobl ddyeithr. Gellwch gwrdd ag ereill yn dueddol i ddifyru ei hunain ar draul eich hygoeledd, ond peidiwch cymmeryd eich twyllo etto. A pheidiwch credu eich bod, hyd y nod pe tyngent hyny, yn Wythfed Rhyfeddod y Byd."

Cyf. D. R.

MARWOLAETH CRIST.

Marwolaeth Iesu Grist. Beth oedd ei amcan, a pheth oedd y daioni i'w sicrhau trwyddo? Cytuna pawb Cristnogion i ddywedyd mewn atebiad, cadwedigaeth, neu achubiaeth dynolryw. Ond, er hyny, nid yw pawb Cristnogion yn golygu yr un peth, er eu bod yn defnyddio yr un geiriau. Y mae ganddynt esboniadau gwahanol ar y gair iachawdwriaeth neu gadwedigaeth, a gwahanol esboniadau gyda golwg ar y modd mae yr iachawdwriaeth yma i'w chael. Wrth iachawdwriaeth, neu gadwedigaeth, y mae rhai Cristnogion yn deall rhyddhad oddiwrth ystyfnigrwydd, llygredigaeth ac euogrwydd pechod; tra y mae Cristnogion ereill yn golygu rhyddhad oddiwrth boenau a chosp pechod. Y mae rhai Cristnogion yn credu i Grist ddyoddef a marw er ein mwyn

ni, neu er ein lles ni, a'i fod trwy ei addysgiadau a'i esampl, ei fywyd a'i farwolaeth a'i adgyfodiad oddiwrth y meirw, wedi rhoddi cyfarwyddiadau, cymhelliadau, a chynnorthwyon trwy y rhai y gall pawb fod yn gadwedig; tra mae Cristnogion ereill yn credu i Iesu Grist ddyoddef a marw yn ein lle, a'i fod trwy ei ddyoddefiadau a'i farwolaeth yn cadw dynolryw rhag gwae tragywyddol, i'r hwn, fel pechaduriaid, yr oeddynt yn gyfiawn agored. Y mae rhai Cristnogion yn credu i Iesu Grist farw i sefydlu gwirioneddau yr efengyl, ac i ddwyn bywyd ac anfarwoldeb i'r goleuni trwy ei adgyfodiad oddiwrth y meirw; tra y mae Cristnogion ereill yn credu iddo farw i foddloni cyfiawnder dwyfol, a gwneyd iawn dros bechodau dynion.

Gan nad yw gofod nac amser yn caniatau i ni chwilio i mewn yn fanwl, a sylwi ar yr holl syniadau sydd yn cael eu dal gan Gristnogion mewn perthynas i amcan a dyben marwolaeth Crist, yr ydym dan orfod i ddewis neu ddethol rhyw un esboniad, a chyfyngu ein sylwadau at yr un hwnw. Ac hyd y nod wrth gyfyngu ein sylwadau at un, ni allwn wneyd dim braidd rhagor na cyffwrdd a rhai o brif ranau y cyfryw, a rhoddi awgrymiadau a chymhelliadau i ymchwiliadau pellach arno. Os oes un ddyledswydd yn orphwysedig ar ddyn i'w chyflawni diau fod galwad arno i chwilio am y gwirionedd a barnu drosto ei hunan. Fel Undodiaid, yr ydym, fel y gwyr y rhan luosocaf o ddarllenwyr yr Ymofynydd, yn cael ein hystyried fel rhai sydd yn gwadu athrawiaeth yr Iawn, hyny yw, fel y deallir hi gan y sawl sydd yn myned dan yr enw uniawngred: ond derbyniwn yn llawen a chroesawus yr hyn sydd yn ymddangos i ni yn athrawiaeth ysgrythyrol ar y pwnc, fel un llawn o gyssur, ymddiried a gobaith. O'r tu arall, gwrthodwn yr esboniad sydd wedi cael ei osod arni gan y mwyafrif mawr, efallai, o Gristnogion proffesedig.

Y mae yn beth o'r goreu a dymunol gan hyny, er ein boddlonrwydd ein hunain, ac hefyd oddiar deimlad o barch priodol i opiniynau y Cristnogion hyny oddiwrth y rhai ydym yn gwahaniaethu, i adolygu yn achlysurol y rhesymau sydd wedi ein tueddu ni i wrthod eu hesboniadau hwy ar yr athrawiaeth, ac i lynu wrth yr eiddom ein hunain, y rhai ydynt yn ymddangos i ni yn fwy cyssonol a rheswm, ysgrythyr a dynoliaeth; yn fwy dealladwy, ac yn fwy tueddol i gadw dyn oddiwrth bechod, a thrwy hyny ei wneyd yn un a'r nefoedd.

Beth yw athrawiaeth yr Iawn ydym ni felly yn wrthod? Y mae wedi cael ei galw yn un o athrawiaethau y Diwygiad, ac haerir fod cred ynddi yn hanfodol i iachawdwriaeth. Beth ydyw? Yn awr, gyda golwg i ochelyd yr un camsyniad o'n tu ni, rhoddwn gerbron y darllenydd eiriau y sawl sydd wedi ei chredu yn drwyadl, neu sydd yn ei chredu, gan ddechreu ar amser y diwygiad i lawr i ddyddiau diweddarach. Dywed Luther, "Rhagwelodd yr holl broffwydi yn yr yspryd, y buasai Crist yn dyfod, y troseddwr, llofruddiwr, lleidr, gwrthryfelwr a'r cablwr mwyaf a fu, neu allasai fod, yn y byd. Oblegyd ei fod wedi cael ei wneyd yn aberth am bechodau yr holl fyd, nid yw yn awr yn berson diniwed, ond yn bechadur. Pwy bynag sydd yn pechu, myfi, ti, ni, yr oll sydd wedi eu cyflawni, neu a gyflawnir yn y dyfodol, y

maent yn bechodau Crist mor wirioneddol a phe buasai Efe ei hunan wedi eu cyflawni."

Dywed Calvin, "Deallwn wrth yr amgylchiadau yma—ei dreial—iddo ddwyn cymmeriad drwgweithredwr,—iddo yn ei enaid ddyoddef poenau y dyn damnedig a gwrthodedig—i faich damnedigaeth oddiwrth yr hwn ein rhyddhawyd ni gael ei osod ar Grist; ac nad oes yr un boddhad arall, trwy yr hwn y gall Duw, wedi ei aflonyddu, gael ei wneyd yn ffafriol a'i ostegu."

Yn mhlith y namyn un deugain erthygl Eglwys Sefydledig ein gwlad, ceir y geiriau yma:—"Aberthiad Crist, a wnaed unwaith, sydd berffaith brynedigaeth, boddhad, ac iawn dros holl bechodau'r byd i gyd, yn gystal gwreiddiol a gweithredol; ac nid oes iawn arall am bechod, ond hwnw yn unig." Gwel Erthygl 31. "Fe'n cyfrifir yn gyfiawn ger bron Duw, yn unig er mwyn Haeddedigaethau ein Harglwydd a'n Hiachawdwr Iesu Grist, trwy ffydd, ac nid o herwydd ein gweithredoedd neu ein haeddiant ni ein hunain." Ibid xi. Y mae eglwys Scotland, yn ei chyffes ffydd, yn haeru rhywbeth tebyg i hyn:—"Darfu i Grist trwy ei ufudd-dod ryddhau neu dalu yn hollol ddyled yr oll o'r cyfryw sydd wedi eu cyfiawnhau felly, a rhoddodd foddhad priodol a chyflawn i gyfiawnder Duw ar ein rhan ni."

Y mae Dr. Woods, o Andover, yn ei lythyron at yr Undodiaid, yn dal "Fod Duw wedi parotoi cyfiawnder perffaith fel sylfaen gobaith, ac wedi dysgu fod iechydwriaeth pechaduriaid yn ymddibynu yn hollol ar Grist croeshoeliedig, ac nad yw unrhyw weithredoedd o gyfiawnder maent wedi gyflawnu, nac unrhyw ragoriaethau neu dueddiadau ydynt feddianol arnynt, i gael eu henwi fyth yn ei bresenoldeb Ef; oblegid y mae Duw wedi danfon ei Fab i fod yn Iawn, ac wedi dweyd wrthym fod yn rhaid i ni ymddibynu ar ei waed iawnol, fel unig sylfaen maddeuant." Y mae Proffeswr Stuart yn ei bregethau ar yr Iawn, yn siarad am yr aberth mawr iawnol a wnaed trwy Grist, ac yn dal i "Grist ddyoddef fel dirprwywr—neu fod ei ddyoddefiadau a'i farwolaeth yn aberth iawnol, ar gyfrif y rhai y mae ein pechodau yn cael eu maddeu, a ninau yn cael ein hadferyd i ffafr ddwyfol."

Gallasem ddyfynu llawer iawn rhagor o ddyfyniadau i'r un perwyl, ond ni ddyfynwn ragor nag un darn o eiddo Scot yn ei "Nerth y Gwirionedd," yn yr hwn y dywed, "ei fod yn wrthddywediad i gredu yn y boddhad sylweddol, ac o ganlyniad anfeidrol i gyfiawnder dwyfol a wnaed trwy farwolaeth Crist, heb gredu ei fod yn wir Dduw." Fel atebiad i hyn, gellir dywedyd mai ffydd hen Sociniaid Poland oedd, "i Grist, trwy yr ewyllys a'r bwriad dwyfol, ddyoddef dros ein pechodau ni, a myned trwy farwolaeth waedlyd fel aberth iawnol." Credent hwy yn y fath iawn trwy Iesu Grist, fel y credai Socinus ei hunan hefyd, yr hwn a ysgrifenodd ar y pwnc, ac a ogoneddai yn yr athrawiaeth. Sylwn ar hyn, fel y byddo i'w weled yn amlwg, nad yw yr enw *Socinian*, neu Sosin, fel y dywedir yn gyffredin mewn gwawd, yr hwn sydd ar rai prydiau yn cael ei osod ar Undodiaid diweddar, ddim yn briodol iddynt. Bid sicr, y mae y sawl a gredent yn yr iawn fel peth iawnol, ac a addolent yr Iesu, fel y gwnai y Socin-

iaid, yn gwahaniaethu yn mhell oddiwrth Undodiaid y dyddiau presenol.

(I'w barhau.)

Y CRYNWR A'R ESGOB.

YMDDIDDANION RHWNG JOHN ROBERTS, CRYNWR, A NICHOLSON, ESGOB GLOUCESTER.

(*Allan o Fywgraffiad John Roberts, gan ei fab, Daniel Roberts*, 1725.)

YR YMDDIDDAN CYNTAF.

Daeth swyddog i alw fy nhad gerbron Cwrt yr Esgob; ond dywedodd wrth fy nhad nas gallai ei anog i ddyfod, rhag iddynt ei rwydo a'i anfon i garchar. Ar yr un amser galwodd was i fy nhad, o'r enw John Overall. Aeth fy nhad ar yr amser appwyntiedig, heb ei was; a phan alwyd ei enw, atebodd. Mae sylwedd yr ymddiddan fel y canlyn:—

Esgob.—Beth ydyw eich enw?

J. Roberts.—Yr wyf wedi cael fy ngalw wrth fy enw, ac wedi ateb iddo.

E.—Yr wyf yn dymuno ei glywed etto.

J. R.—Fy enw yw John Roberts.

E. Wel, fe'ch ganwyd yn Roberts, ond nis ganwyd chwi yn John. Pwy roddodd i chwi yr enw hwnw?

J. R.—Yr wyt wedi gofyn cwestiwn lled galed, gan fod fy enw wedi ei roddi i mi cyn fy mod yn alluog i gofio pwy a'i rhoddodd. Ond yr wyf yn credu mai fy rhieni, gan mai ganddynt hwy yn unig oedd yr hawl i roddi i mi fy enw. Wrth yr enw hwnw y'm galwent bob amser, ac i'r enw hwnw yr oeddwn inau bob amser yn ateb; ac nid wyf yn gwybod fod eisieu i neb ei amheu yn awr.

E.—Nac oes, nac oes. Ond pa faint o blant sydd genych?

J. R.—Mae wedi rhyngu bodd i Dduw i roddi i mi chwech o blant; tri o honynt mae wedi gweled bod yn dda i gymmeryd oddi wrthyf, y tri ereill ydynt etto yn fyw.

E.—A pha sawl un o honynt sydd wedi eu hesgobeiddio?

J. R.—Dim un, am a wn i.

E.—A pha reswm ellwch roddi am hyny?

J. R.—Rheswm da iawn, dybygaf. Ganwyd y rhan amlaf o fy mhlant yn nyddiau Oliver, pan oedd Esgobion allan o ffasiwn. (Ar hyn dechreuodd y Cwrt chwerthin).

E.—Pa nifer o honynt sydd wedi eu bedyddio?

J. R.—Beth wyt ti'n feddwl wrth hyny?

E.—Beth! a ydych chwi ddim yn addef bedydd?

J. R.—Ydwyf. Ond dichon ein bod yn gwahaniaethu ar hyny o beth.

E.—Pa fedydd yr ydych yn ei addef? Bedydd yr Ysbryd, feallai?

J. R.—Ie. Pa fedydd arall ddylwn i addef.

E.—A ydych yn addef dim ond un bedydd?

J. R.—Os yw un yn ddigon, pa angen sydd am ragor? Dywedodd yr apostol, un Arglwydd, un ffydd, un bedydd.

E.—Beth ddywedwch chwi am fedydd dwfr?

J. R.—Dywedaf, fod dyn wedi ei anfon oddiwrth Dduw, a'i enw Ioan, yr hwn a dderbyniodd gommisiwn i hyny, ac efe yw'r unig un wyf yn ddarllen am dano ag oedd wedi ei alluogi i'r gwaith hwnw.

E.—Ond beth os gallaf ddangos i chwi fod rhai o ddysgyblion Crist hefyd wedi bedyddio â dwfr wedi esgyniad Crist.

J. R.—Nid wyf yn tybied y bydd hyny yn waith anhawdd iawn; ond beth yw hyny i mi?

E.—A ydyw yn ddim genych chwi beth oedd dysgyblion Crist eu hunain yn wneuthur.

J. R.—Dim yn mhob peth, canys y mae Paul, yr apostol enwog hwnw, yr hwn, dybygaf, a addefai ei fod wedi derbyn commisiwn mor helaeth a neb o'r rhai ereill; ie 'n wir, fe ddywed ei hun nad oedd efe ddim yn ol i'r penaf o honynt, ac etto, mae efe yn cyffesu yn onest nad oedd ganddo yr un commisiwn i fedyddio â dwfr; a dywed yn mhellach, yr wyf yn diolch i Dduw na fedyddiais i neb o honoch ond Crispus a Gaius; canys ni anfonodd Crist fi i fedyddio (hyny yw, *â dwfr*), ond i efengylu. Ac os na anfonwyd ef, dymunwn ofyn yn sobr, pwy a geisiodd hyn oddiar ei ddwylaw. Feallai y cawsai can lleied o ddiolch am ei lafur ag ydwyt ti yn debyg o gael am dy lafur di; ac mi garwn i wybod hyn, pwy a'th anfonodd di i fedyddio?

E.—Nid hyn ydyw ein busnes presenol. Yr ydych wedi eich dwyn yma am beidio dyfod i'r eglwys. Beth ddywedwch am hyny?

J. R.—Yr wyf am weled fy nghyhuddwr.

E.—Y gweinidog ydyw, a gwarcheidwaid yr eglwys. A ydych yn ei wadu?

J. R.—Ydwyf, oblegid y mae yn egwyddor ac yn arferiad genyf yn wastad i fyned i'r eglwys.

E.—Ac a ydych yn myned i'r *eglwys*?

J. R.—Ydwyf, ac weithiau mae'r *eglwys* yn dyfod ataf fi.

E.—Yr *eglwys* yn dyfod atoch chwi! Nid wyf yn eich deall, gyfaill.

J. R.—Dichon hyny. Mae'n fynych o ddiffyg deall da fod y diniwed yn gorfod dyoddef.

Swyddog.—Mae'n cynnal cyfarfodydd yn ei dŷ, ac mae'n galw hwnw yn *eglwys*.

J. R.—Na, nid wyf yn credu fod fy *nhy* i yn *eglwys* yn fwy nag yr wyf yn credu fod yr hyn a alwch chwi felly yn eglwys. Yr wyf yn galw *pobl* Dduw yn *eglwys* Dduw, *pa le bynag* y byddont wedi dyfod yn nghyd i addoli mewn ysbryd a gwirioneddd. A phan y dywedaf fod yr eglwys yn dyfod ataf fi, yr hyn a feddyliaf yw hyn, y gynnulleidfa o addolwyr, y rhai ydynt yn fynych yn cyfarfod yn fy nhŷ i. Nid wyf yn galw y peth hwnw yn eglwys a alwch chwi felly, y peth a wneir o goed a maen, nid yw hwnw ond gwaith llaw dyn, tra mae'r wir eglwys yn gynnwysedig o *feini byw*, ac wedi ei hadeiladu trwy Grist, yn dŷ ysprydol i Dduw.

E.—Yr ydym yn ei alw yn eglwys yn ffigurol, neu mewn ffordd o gyffelybiaeth, gan feddwl y lle mae'r *eglwys* yn cyfarfod ynddo.

J. R.—Yr wyf yn ofni eich bod yn ei alw yn eglwys yn rhagrithiol, ac yn dwyllodrus, gyda bwriad i frawychu pobl i roddi parch i'r *lle* nad yw yn ddyledus iddo, fel pe byddai eich cyssegriadau wedi gwneuthur y tŷ hwnw yn sancteiddiach nâ thai ereill.

E.—Beth ydych chwi yn alw yr hyn a alwn ni yn eglwys?

J. R.—Gall yn briodol ddigon gael ei alw yn offeren-dŷ (*mass-house*), gan ei fod gynt yn cael ei adeiladu i'r pwrpas hyny.

S.—Mr. Haywood,* dysgwylir eich bod yn dangos mwy o barch i'r lle hwn nag yr ydych trwy gadw eich het ar eich pen.

J. R.—Pwy sydd yn ei ddysgwyl?

S.—Fy Arglwydd Esgob.

J. R.—Yr wyf *yn dysgwyl* pethau gwell oddiwrtho ef.

E.—Na, na, cadwch eich het ar eich pen; nid wyf yn ei ddysgwyl oddiwrthych chwi." Yn mhen ychydig wedi hyn, dywedodd yr Esgob, "nid yw hwn yn amser cyfaddas i chwi a minau i ymddadleu; ond gallaf eich cymmeryd i'm hystafell a'ch argyhoeddi o'ch cyfeiliornadau."

J. R.—Ystyriwn ef yn garedig ynot ti neu unrhyw ddyn arall, i'm hargyhoeddi o unrhyw *gyfeiliornadau* ag wyf yn eu dal, ac ni wnawn eu dal yn hwy.

E.—Galwch rywrai ereill.

Yna galwyd gwas fy nhad; ond gan na wnaeth ei ymddangosiad, dywedodd y Swyddog, "Mr. Haywood, onid yw John Overall yma?"

J. R.—Yr wyf yn credu nad yw.

E.—Paham nad yw?

---

* Adnabyddid Roberts wrth yr enw Haywood neu Hayward hefyd.

J. R.—Yr wyf yn meddwl fod amryw resymau da dros ei absenoldeb.

E.—Beth ydynt? A gaf fi wybod?

J. R.—Yn gyntaf, mae'n hen ddyn, ac yn analluog i ymgymmeryd a'r fath siwrnau, oddieithr fod rheswm da. Yn yr ail le, 'alla' i ddim o'i spario allan o'r fusnes yn fy absenoldeb.

E.—Paham nad yw efe yn myned i'r eglwys ynte?

J. R.—Y mae yn myned i'r eglwys gyda mi.—[Ar hyn dechreuodd y Cwrt chwerthin.]

E.—Galwch rhywun arall.

CYFARFODYDD BLYNYDDOL.

Cyfarfodydd blynyddol Undodiaid Deheubarth Cymru a gynnaliwyd eleni ar y 27ain a'r 28ain o Mehefin diweddaf yn Pantdefaid, Ceredigion. Yr oedd y capel mewn angen ychydig adgyweiriadau mewnol, ond methwyd eu gorphen yn brydlawn, oherwydd peidio eu *dechreu* yn brydlawn. Nis gwn pwy argraff gafodd hyn ar y dyeithriaid oedd yno wedi ymgynull o'r De ac o'r Dwyrain, o'r Gogledd ac o'r Gorllewin. Yr oedd y tywydd yn hynod ffafriol, a'r cyfarfodydd yn lluosog dros ben, ond yr oedd y pregethwyr, oherwydd afiechyd, ac amgylchiadau rhwystrol ereill, yn hytrach yn brin. Dywedais ynof fy hun, "Y cynhauaf yn ddiau sydd fawr, ond y gweithwyr yn anaml." Dechreuwyd y gwasanaeth prydnawn dydd Mercher am 6, gan y Parch. John Evans, Gellionen; a phregethodd Mr. Jones (*Glaswalch*), Llanbedr. Cafwyd pregeth drachefn gan Mr. Evans. Am 10 boreu dranoeth dechreuwyd y cwrdd gan y Parch. William Rees, Rhydygwin; a phregethodd y Parch. William James, B. A., Aberdar, oddiwrth Rhuf. xiii, 1, 2. Ar ol y bregeth cafwyd cynadledd fel arferol, a'r pwnc appwyntiedig oedd, "Y prif rwystrau ar ffordd Undodiaeth, a'r modd goreu i'w symmud ymaith." Darlleuwyd papyr ar y pwnc gan y Parch. Mr. Evans, Gellionen; canlynwyd ef yn fyr ac yn ddyddorol gan y Parchedigion William Rees, Rhydygwin; William James, B. A., Aberdar; a David Evans, B. A., Maesymeillion; a chan Meistri. David Jones, Castell; Rees Thomas, Hendy; Evan Evans, Llandyssil; a David Charles, Pencwarre. Cafwyd cyfarfod drachefn yn y prydnawn; dechreuwyd y cyfryw gan y Parch. Mr. Davies, Alltyplacca; pregethodd y Parchedigion William Davies, Penrhiw, a Phantteg; a Mr William Rees, Rhydygwin. Cafwyd cyfarfodydd da ar y cyfan, a gobeithio na chafodd neb achos i edifarhau oherwydd bod yn bresenol. Gormod o ganmol cyfarfodydd o'r fath sydd fynychaf; gwell, efallai, fyddai gadael iddynt lefaru drostynt eu hunain. Y mae eu daioni i'w weled yn yr effeithiau sydd yn canlyn.

Mae'r cwrdd blynyddol nesaf i fod yn Gellionen, a'r Parch. David Evans, B. A., Maesymeillion, wedi ei bennodi i bregethu'r bregeth dydd Iau. Y cwrdd chwarterol nesaf a gynnelir yn Penrhiw a Phant-teg. Pregethir y bregeth gan y Parch. Mr. Evans, Maesymeillion. Amser arferol y cwrdd fydd y 3ydd a'r 4ydd o Hydref. Trafodir yn y *Conference* yr un pwnc ag a drafodwyd yn Pantydefaid.

LLANDYSSUL.

CYFARFOD O GYDYMDEIMLAD A'R PARCH. WILLIAM THOMAS, M.A. (GWILYM MARLES), YN EI GYSTUDD.

O'r Faner am Mehefin 27ain, 1877.

Y MAE enw y Parch. W. Thomas wedi bod dipyn o flaen y cyhoedd yn ddiweddar mewn cyssylltiad â chapel Llwynrhydowen, yr hwn a gauwyd yn ei erbyn ef a'i gynnulleidfa ryw fisoedd yn ol. Mae hanes yr achos hwnw yn ddigon hyspys i ddar-

llenwyr y FANER, fel nad oes eisiau i ni ar hyn o bryd ddweyd dim yn ei gylch. Drwg genym hyspysu cyfeillion lluosog Mr. Thomas, drwg gyfrwng y FANER, fod ei lafur caled gyda'r ysgol, yn nghyd â'i drwbl diweddar mewn cyssylltiad â'r troad allan o'r capel, o'r diwedd wedi effeithio ar ei iechyd i'r fath raddau fel ag i'w orfodi, am ryw gymmaint o amser—byr, ni a obeithiwn,—i adael ei ddyledswyddau pwysig, a myned allan i geisio adferiad. Mor gynted ag y deallwyd gan drigolion y lle ei fod yn dwriadu myned ymaith, penderfynwyd i alw cyfarfod i ddangos cydymdeimlad ag ef yn ei brofedigaeth. Cymmerodd y cyfarfod le nos Lun diweddaf, yn ystafell fawr y Porth Hotel. A chyfarfod brwdfrydig oedd; yr oedd yr ystafell eang, yr hon sydd yn ddigon i gynnwys amryw gannoedd, wedi ei llenwi hyd yr eithaf. Gwelais ar y platfform J. Jones, Ysw., cyfreithiwr, Llandyssul; a'r Parchn. John Davies, Alltyplacca; David Evans, Maesymeillion; W. Davies, Penrhiw; E. P. Jones, Pencader; a J. M. Prytherch, Llanarth. Hefyd y Parchn. Thos. James, M.C., a John Davies, a T. P. Phillips, Llandyssul. Ac yr oedd yn hawdd canfod ar y gynnulleidfa fod yr hyn oedd yn cael ei wneyd yn cymmeryd lle oddiar wir deimlad.

Dewiswyd J. Jones, Ysw., cyfreithiwr, i'r gadair. Eglurodd Mr. Jones yn fyr, ond i'r pwrpas, amcan y cyfarfod. Dywedai mai gweithiwr caled oedd Mr. Thomas—mai braidd y gwyddai beth oedd gorphwys; ac mai ei lafur caled, yn nghyd â phethau ereill, oedd yr achos o'i gystudd presenol. Er nad oedd Mr. Thomas yn hen, etto ei fod wedi byw yn hir, os ydym i fesur amser oddiwrth y gwaith a gyflawnir.

Yna galwodd y cadeirydd ar y Parch. John Davies, Alltyplacca, i ddarllen llythyrau oddiwrth gyfeillion yn dadgan eu cydymdeimlad â'r cyfarfod, a'u gofid o herwydd eu hanallu i fod yn bresenol. Darllenwyd llythyrau oddiwrth y Parchedigion R. C. Jones, Llanbedr; S. Thomas, Aberduar; J. G. Evans, Caerfyrddin; N. R. Williams, Merthyr; R. J. Jones, M.A., Aberdar; a W. James, B.A., Aberdar. Mae llythyrau i law hefyd oddiwrth E. W. Lloyd, Cwmbach; J. Evans, Gellionen; ac Emmanuel Lewis, Llandyssul.

Wedi darllen y llythyrau, galwodd y cadeirydd ar y Parch. John Davies i gynnyg y penderfyniad cyntaf i'r cyfarfod, yr hwn oedd fel y canlyn:—"Fod y cyfarfod hwn yn cydymdeimlo â'r Parch. W. Thomas, M.A., yn ei gystudd presenol, ac yn gobeithio y bydd i'w daith fwriadedig fod dan fendith Duw i'w adferyd i'w iechyd." Siaradodd Mr. Davies gryn dipyn am gydymdeimlad â'r profedigaethus, ac am ragorion Mr. Thomas fel cyfaill. Yr oedd o ymddangosiad swynol a boneddigaidd, ac yr oedd pob peth yn Mr. Thomas yn cyfateb i'w olwg, yr oedd yn gyfaill o'r fath oreu—yn un o'r rhai mwyaf gonest a adnabyddodd—yn gyfaill cywir, difyrus, ac adeiladol.

Eiliwyd y penderfyniad gan y Parch. David Evans, Maesymeillion, hen weinidog parchus, a rhagflaenydd Mr. Thomas yn Llwynrhydowen. Dywedai Mr. Evans ei fod ef yn un o'r prif offerynau i ddwyn Mr. Thomas i'r gymmydogaeth—efe wnaeth ei *introducio* i eglwys Llwynrhydowen. Pa un a wnaeth gamgymmeriad ai peidio, nid oedd yn gwybod, ond nid oedd yn edifar ganddo. Nid oedd ef yn cydweled â Mr. Thomas ar bob pwnc, ond yr oedd yn edmygu gonestrwydd y dyn, ei argyhoeddiad dwfn, a'i wroldeb i draethu ei farn ar wahanol byncian.

Yna siaradwyd gan Mr. David Thomas, Llwynrhydowen Shop, a Mr. David Charles, Penewarre, dau o ddiaconiaid Mr. Thomas yn Llwynrhydowen. Dywedent fod y mawr bleser a'r budd oeddynt yn gredu a dderbyniasent dan ei weinidogaeth wedi creu ynddynt barch dwfn tuag ato. Yr oedd eu tristwch o herwydd ei afiechyd yn fawr, yn fwy nag a fedrent fynegu. Buasai yn dda ganddynt allu mynegu eu teimladau yn well.

Mr. John Thomas, Talgareg, diacon yn Bwlchyfadfa, un o'r capeli ereill sydd dan Mr. Thomas, a ddywedai ei fod ef yn cynnrychioli yr eglwys a'r gynnulleidfa yn Bwlchyfadfa, er fod amryw ereill oddiyno yn bresenol yn y cyfarfod. Dywedai fod Mr. Thomas yn anwyl iawn ganddynt yn Bwlchyfadfa; nid oedd yno neb wedi blino arno, yr oeddynt yn teimlo yn drist wrth feddwl am orfod ei golli hyd y nod am ychydig fisoedd. Yr oeddynt yn gobeithio y caent fwynhau ei weinidogaeth am ugain mlynedd etto, a rhagor. Yna rhoddwyd y penderfyniad i fyny i'r cyfarfod, a phasiwyd ef gydag arwyddion diamheuol o gydymdeimlad.

Galwodd y cadeirydd yn nesaf ar y Parch. Thomas Jones, M.A., i ddarllen llythyr oddiwrth Mr. Thomas at y cyfarfod. Wele adysgrif (*copy*) o hono:—

"Mr. Cadeirydd, a Chyfeillion oll,

Gyda chalon rhy lawn a gwresog i osod allan ei theimladau yr wyf yn diolch i chwi am eich presenoldeb yma heno. Y mae yn wir garedig ynoch, ac nid yw yr arwydd lleiaf o gydymdeimlad a charedigrwydd yn beth i'w ddibrisio genyf fi ar hyn o bryd.

Mae fy nerth wedi ei ostwng ar y ffordd—ffordd na fu un amser yn rhy lyfn, ond sydd yn ystod y misoedd diweddaf wedi bod trwy rwystrau a phrofedigaethau na freuddwydiais erioed am danynt. Trwy y cwbl, diolch am y nerth a ddaw yn ol y dydd; mae yr ysbryd yn barod, er fod y cnawd yn wan.

O! fel y carwn fod gyda chwi heno! Ond nid yw yn bossibl. Yn gyntaf, nid yw fy iechyd yn caniatau. Yn ail, nis gallai fy nheimladau ddal. Yn drydydd, ond odid na ddywedid gan fy nghyfeillion am danaf lawer o eiriau caredig y byddai yn ddewisach genyf beidio eu clywed. Pan ddaethum yma gyntaf yn arosol, yn 1858, hoffais y wlad, y lle, a'r bobl; yn wir, syrthais mewn cariad â'r cyfan. Bum oddiyma ar ol hyny ryw ddau dymhor o chwe mis yr un, i orphen fy addysg yn y Brifysgol. Ond gofalais ddychwelyd, ac yma y syrthiodd fy llinynoedd hyd yn hyn.

A fy llafur gweinidogaethol nid oes a fynwyf yn neillduol yma, na chwaith â fy nghylch fel ysgolfeistr. Yr ydych yn cwrdd yma fel cymmydogion, a chydardalwyr, a chyd-drefwyr. Etto, chwi a ganiatewch i mi ddweyd am y berthynas rhyngof a fy nghydweinidogion, er yn gwahaniaethu i raddau pell -a phaham nad oes genym oll hawl i hyny?—ni fu un ymryson na'r un ddadl dduwinyddol rhyngom a'n gilydd. Fel ysgolfeistr, trwy y blynyddau, yr wyf yn hyderu fy mod yn cael fy mharchu a'm caru gan y plant a'r dynion ieuainc a ddysgais. Ni ddefnyddiais gospau corfforol erioed, ac ni chredais mai trwy drais y mae llywodraethu plant ac ieuenctyd. Ac yr wyf wedi cael pob boddlonrwydd fod y cynllun wedi ateb y dyben.

Nid yw y cwrdd hwn yn un politicaidd; ond heb gyfeiriad at fy mywyd cyhoeddus, nid wyf yn meddwl y byddai y llythyr hwn yn llawn na'r cwrdd hwn yn ddealladwy. Yrwyf erioed wedi cael fy nhueddu i gymmeryd dyddordeb a rhan mewn pynciau gwleidiadol, ac i lawer "*that's the head and front of my offending.*" Gwelais, fel y gwelwch ac y gwyddoch chwi oll, fod pethau yn y plwyf a'r ardaloedd yn cael eu cyflawni gyda golwg ar festriau ac etholiadau mewn ffordd na oddefid mewn gororau ereill o Gymru. Codais fy llais i'w herbyn.....Dywedwyd wrthyf yn aml mai fy iaith ddirodres, a'm traethiad diamwys, a'm hymosodiad diarbed ar drais a gorthrwm lleol a sirol oedd y gwir achos o'r trwbl diweddar. Nid wyf yn mhell o'r farn hon fy hun. Ond os, fel y credwyf, mai dynoethi gorthrwm allan yw fy mai, yr wyf yn ei gyfaddef, ond nis addawaf ei adael. Pechaf hyd ddiwedd y beunod. Nid wyf wedi gallu bod yn ddystaw trwy'r blynyddau, mwy nâ llawer o fy nghyfeillion sydd yma heno; ac os buasai unrhyw "*Balaclava charge*," gwyddoch am un na phallai byth fod gyda chwi. Nid wyf yn addaw peidio dynoethi gorthrwm a thrais yn y dyfodol. Os Duw rydd nerth, mi a'i gwnaf gyda *compound interest*. Nis gallaf ysgrifenu rhagor, er y dymunwn wneyd hyny. Gwyddoch, os rhydd Duw fywyd i mi, pa le i fy nghael, pwy ochr, a chyda pha arwyddair:—gyda'r bobl, gyda chyfiawnder, a chydraddoldeb y byddaf fi. A phan yn cofio am danaf fi mor garedig, chwi a gofiwch am fy anwyl briod. Hebddi hi nis gallaswn fod wedi dal cyhyd. Mae fy mhryder a'm cystudd wedi bod yn bryder ac yn gystudd iddi hi, ac ychydig iawn yw ei hiechyd hi yn well nâ'r eiddof fi.

Yr wyf yn falch i gael cyfle i wneyd yr ychydig sylwadau hyn. Gobeithiaf yn mhen ychydig fisoedd eich cwrdd etto, i ddodi ein hysgwyddau wrth hen olwyn anrhydeddus diwygiad a blaen-fynediad. Hyd hyny, Duw a fo gyda chwi. Ewch rhagoch, ac na ddangosed un milwr o honoch ei gefn i'r gelyn.

Yn gywir, yr eiddoch,

William Thomas."

Yr oedd yn amlwg fod darlleniad y llythyr uchod yn creu teimlad dwys yn y gwyddfodolion. Galwyd yn nesaf ar y Parch. T. Phillips i ddarllen yr ail benderfyniad, sef, "Fod y cyfarfod hwn yn cydnabod gwasanaeth gwerthfawr y Parch. Wm. Thomas, M.A., yn ei berthynas ag addysg a manteision lleol tref Llandyssul; ac yn benaf, ei wasanaeth i'r achos Rhyddfrydig yn mhlwyf Llandyssul, a'r sir yn gyffredinol; gan fawr ddymuno ei weled etto yn troi yn ei gylchoedd arferol." Cyfeiriodd Mr. Phillips at y llythyr a ddarllenwyd oddiwrth Mr. Thomas, a dywedai ei fod yn

ddangoseg cywir o gymmeriad y dyn. "Yr oedd Gwilym Marles," meddai, "i'w wel'd yn mhob gair o'r llythyr yna." Cawsom gan Mr. Phillips araeth faith a hyawdl, a thrueni na ellid ei rhoddi yn gyflawn, yn gosod allan wasanaeth a llafur Mr. Thomas mewn gwahanol gylchoedd.

Eiliwyd y cynnygiad gan y Parch. J. Davies, Llandyssul, mewn araeth ddoniol. Mae y brawd hwn yn un o'r rhai mwyaf hapus a doniol ar y platfform a glywsom erioed. Dylem grybwyll fod Mr. Phillips a Mr. Davies yn gydweithwyr mewn modd arbenig â Mr. Thomas mewn cyssylltiad â'r achos Rhyddfrydig yn y lle a'r ardal. Y mae yma rai ereill yn gweithio, ond hwy yw blaenoriaid y gâd, hwy sydd yn neidio i'r tân. Mor wrol yr ymladdasant yn 1868, ac mewn cyssylltiad â chael Bwrdd Ysgol wedi hyny. A gallem feddwl nos Lun nad ydynt etto wedi colli dim o'u hysbryd na'u nerth. Llwyddiant iddynt i gael trais a gormes i'r llawr.

Siaradwyd yn mhellach gan y Parch. T. James; Mr. Evan Evans, Llandyssul; Cadben Davies, Llanarth; Parch. E. P. Jones, Pencader; Parch. W. Davies, Penrhiw; Mr. Rees, C M., Mr. Thomas Jones, Penrhiw Rhôd; Mr. B. Phillips, Blue Bell; ac yn ddiweddaf oll y Parch. J. M. Prydderch, Llanarth, yr hwn a gondemniai mewn iaith gref y dull yr oedd Mr. Thomas wedi cael ymddwyn tuag ato. Yr oedd Mr. Thomas wedi ei gyhuddo o wneyd cyfeiriadau personol yn ei bregethau a'i areithiau at feistri tiroedd a boneddigion, ond gwyddai ef (Mr. Prydderch) fod Mr. Thomas yn ormod o foneddwr i wneyd hyny. Gwir fod Mr. Thomas yn dynoethi trais a gormes; ac os oedd rhyw ddynion yn euog o hyny, nid ei fai ef oedd hyny. Galwai Mr. Prydderch ar gynnulleidfaoedd Mr. Thomas i amddiffyn ei gymmeriad trwy adael i'r byd wybod y gwirionedd am dano yn y cyssylltiad hwn.

Pasiwyd y penderfyniad gyda brwdfrydedd mawr, ac yr oedd yn amlwg ddigon fod y cyfarfod yn fynegiad o deimlad gwirioneddol a dwys. Dymuniad pawb oedd, y bydd i'r daith ar led fod yn foddion er adferiad iechyd i Mr. Thomas a'i anwyl briod.—AGAMOS.

CYMDEITHAS Y GROES SANCTAIDD *(The Society of the Holy Cross)*.—Cymmerir enwau y Clerigwyr canlynol o Gymru ag ydynt yn perthyn i'r Gymdeithas uchod, allan o'r gyfres gyflawn o 700 o aelodau yn "*Truth*," Mehefin 28ain, ac yr wyf yn meddwl fod y cyfryw gyfres yn awdurdodedig:—

Parch. J. Sidney Boucher, Training College, Carnarvon.
,, J. D. Davies, Llanmadoc, Swansea.
,, J. D. Jenkins, Aberdare, Wales.
,, G. A. Jones, St. Mary's, Cardiff.
,, L. Jones, Brynteg Terrace, Upper Bangor.
,, L. Jones, Usk, Llangasty, Talyllyn, Brecon.
,, R. Jones, Tyddyn-yr-Eglwys, Talsarnau, Wales.
,, Evan Lewis, Rector, Dolgelly.
,, W. J. C. Lindsay, Llanvair, Kilgedin Rectory.
,, J. L. Lyne, Llanthony Abbey (Father Ignatius), Abergavenny.
,, F. W. Puller, Roath, Cardiff.
,, A. G. B. Stallard, 23, Loudon Square, Cardiff.
,, W. Watson, Roath, Cardiff.

MOODY A'R YSPRYDWYR.—Darfu i Mr. Moody yn ddiweddar weddio dros yr ysprydwyr tlawd, hudoledig, ac y maent hwy wedi ei dalu yn ol fel yma:—"Ac, oh, Dydi Ysprydd Gwirionedd, ymwel, atolygwn arnat, â meddwl y brawd Moody, a dyro iddo o'th oleuni. Efe a ddywed wrthym fod Duw'r bydysawd yn cadw carchardy uffernol, lle mae pawb bodau dynol, nad ydynt yn dal syniadau neillduol cyffelyb i'r rhai a gymmeradwyir gan y brawd Moody a'i sect, yn cael eu cadw mewn poenedigaeth dragwyddol. Duw a faddeuo i'r dyn am lefaru y fath gabledd ofnadwy yn erbyn yr Un Cyfiawn a Thrugarog! Duw a'i harweinio allan o'r fath ofergoelion canol-oesol i oleuni gwyddor a ffydd rhesymol. Nid ydym ni ond meidrol a gwan, oh Arglwydd, ond mae'r oll sydd ynom, a'r oll sydd yn gallu cael lleferydd mewn rheswm a chariad, a'r teimlad o gyfiawnder, yn peri i ni brotestio yn erbyn y cabledd dychrynllyd a wnai i'r Un Tragwyddol gospi neb o'i blant am analluogrwydd i dori deddfau rheswm trwy gredu yr hyn sydd iddo ef yn annghredadwy. Achub y dyn hwn, oh Arglwydd, oddiwrth adgno cydwybod, yr hwn mae'n rhaid iddo ryw ddydd ei deimlo o herwydd taenu y fath syniadau twyllodrus a niweidiol yn mhlith yr anystyriol a'r anwybodus."

Hanesion.

Y Parch. Mr. Monteith, o Kilwenock, ger Glasgow, wrth bregethu yn eglwys y Presbyteriaid Unedig yn Melrose, Scotland, pwy ddydd Sul, a ddywedai, "Os byth y gwnaiff y rhai sydd yn gwadu Duwdod Crist gyrhaedd i'r nefoedd, bydd ganddynt wers i'w dysgu yno, sef i addoli gwrthddrych newydd: Yr Oen, Duw-Fab."

Yn fynych iawn nid yw dyn yn gwybod y gwahaniaeth rhwng cyfaill a gelyn, ac y mae hyny yn beth tost. Dywedir fod y ffermwr yn fwy byr ei olygon yn hyn o beth nâ nemawr i neb. Yr ydys wedi cyhoeddi yn ddiweddar gan y Gweinidog Amaethyddol yn Ffrainc y rheolau canlynol:—Gosodir y rhybudd cyhoeddus yma dan amddiffyniad synwyr da a gweddeidd-dra cyhoeddus. Y mochyn daear—yn byw ar lygod a chreaduriaid bychain ereill ag ydynt yn niweidiol i amaethyddiaeth. Na ladder y mochyn daear. Y llyffan—gwas da i'r ffermwr, yn dystrywio o ugain i ddeg ar hugain o bryfed bychain bob awr. Na ladder y llyffan. Y wahadden—yn barhaus yn lladd cynrhon, mwydod, a phryfaid ereill ag ydynt niweidiol iawn i amaethyddiaeth. Ni cheir byth olion yn ei 'stymog ei bod yn byw ar lysiau. Mae'n gwneuthur llawer mwy o dda nag o ddrwg. Na ladder y wahadden. Adar—mae pob ardal yn colli miloedd bob blwyddyn trwy bryfaid. Adar yw yr unig elynion allant eu cadw i lawr yn llwyddianus. Maent yn gynnorthwywyr gwerthfawr ac yn ffryndiau da i'r ffermwyr. Blant, peidiwch afloryddu nythau'r adar. Chwil-y-bawai, neu y *may-bug*—gelyn tost i'r amaethydd. Dodwya o 70 i 80 o wyau. Lladder y *may-bug*. Telir 25 *centimes* i blant am bob 500 o'r *may-bugs* a osodir yn nwylaw y *garde champêtre*.

Priodasau.

Gorphenaf 9fed, yn nghapel yr Undodiaid Saesneg, Aberdar, gan y Parch. J. J. George, yn cael ei gynnorthwyo gan y Parch. E. W. Lloyd, y Parch. R. J. Jones, M.A., Golygydd Yr Ymofynydd, âg Ann, merch henaf E. Griffiths, Ysw., *Surveyor, The Poplars*, Aberdar.

Gorphenaf 10fed, yn nghapel yr Undodiaid Saesneg, Merthyr, gan y Parch. N. R. Williams, y Parch. W. James, B.A., gweinidog yr Hen-dy-cwrdd, Aberdar, â Sarah, merch henaf y diweddar Barch. Owen Evans, Cefncoedcymmer.

Mehefin 9fed, yn nghapel yr Undodiaid, Abertawe, gan y Parch. J. E. Manning, M. A., John Davies, No, 4, Nelson Terrace, Abertawe, â Margaret James, Glannant, Crickhowel.

Mehefin 20fed, yn Bron Deifi, addoldy newydd yr Undodiaid, Llanbedr, Ceredigion, gan y Parch. J. Gwenogfryn Evans, gweinidog Caerfyrddin, yn cael ei gynnorthwyo gan y Parch. R. C. Jones, a Mr, John Jones (Eiddil Wnen), Cofrestrydd, Mr. David Lloyd Rees, unig fab Mr. a Mrs. Rees, Tanyfoel, â Miss Elizabeth Jones, merch hynaf Mr. Herbert Jones, Coedmor Isaf, eill dau o blwyf Pencarreg. "Hawddamor iddynt."

"Lloyd Rhys ar led yr elo—yn ei lwydd,
A'i lân briod fyddo
Yn addien goron iddo;
A'u braint fo bendith ein bro."

"Hil iddynt, a hynt o hedd—a rhodient
Ar hyd llwybrau rhinwedd;
A dewis hyd eu diwedd
Fynediad i Wlad y Wledd."

Teifiwyson.

Gorphenaf 10fed, 1877, yn eglwys yr Undodiaid, Bron Deifi, Llanbedr, Ceredigion, gan y Parch. R. C. Jones, gweinidog y lle, a Mr. John Jones, Cofrestrydd, Mr. David Davies, brawd Mr. J. Hathren Davies, Cwmanne, â Miss Mary Davies, merch hynaf yr hen gyfaill serchog, Mr. William Davies, Efailfach, eill dau o blwyf Pencarreg.

Boed i'ch bob parch a llwyddiant,
Pob pleser byd a'i fwyniant,
Yw'f 'wllys i hen eiddil gwan,
Boed hyn yn rhan o'ch cofiant.

Teifiwyson.

Marwgofion.

Mawrth 21ain, Margaret Davies, Ffynonor, yn 83 mlwydd oed. Cyn ei symmud o'r tŷ i'w gorphwysfa dawel yn mynwent Ystrad, pregethodd W. Rees, Rhydygwin, lle bu yn aelod am flynyddoedd, oddiwrth 1 Cor. xv. 19. Heddwch i'w llwch.

Mawrth 27ain, Gwen Evans, Gwarcwm, yn 40 mlwydd oed, ar ol cystudd byr. Yr oedd ei thymher fwynaidd, a'i bywyd defnyddiol, wedi ennill iddi lawer o gyfeillion mynwesol. Bu yn aelod defnyddiol yn eglwys Rhidygwin, a'i rhodiad yn addurn i'w phroffes. Teimla yr eglwys a'r gymmydogaeth hiraeth a cholled ar ei hol; prawf o hyn oedd y deigryn distaw a welid yn treiglo dros gynifer o ruddiau wrth ei gosod i orphwys yn mynwent Ystrad. Cyn codi o'r tŷ pregethodd W. Rees, Rhydygwin, oddiwrth Psalm xxxvii. 37, a chwmmerwyd rhan yn y gwasanaeth gan y Parch. B. Phillips, Ty'nygwndwn. Na fydded i'w brawd a'i chwaer alaru fel rhai heb obaith, ond yn hytrach gofio ei chynghorion a dilyn eirhinweddau.

Ebrill 6ed, yn 40 mlwydd oed, Mary Jones, merch y diweddar Rees a Margaret Jones, Maesllan, Ystrad. Ni bu yr ymadawedig yn glaf ond ychydig o oriau. Mae angeu sydyn fel hyn yn dangos mor ansicr yw bywyd dyn, na wyddom beth a ddygwydd mewn diwrnod. Gadawodd ar ei hol fam, brodyr, a chwiorydd mewn galar a hiraeth am ei chyfeillach. Tad y weddw a'r amddifaid fyddo yn nerth iddynt yn eu trallod. Yn y tŷ, dydd yr angladd, pregethodd y Parch. B. Phillips, Ty'nygwndwn, bregeth addas i'r amgylchiad oddiwrth Diar. xviii. 10, yna gosodwyd hi i orphwys hyd foreu y codi yn mynwent Ystrad.

Mai 10fed, o'r *bronchitis*, ar ol cystudd byr a thrwm iawn, Margaret, unig ac anwyl blentyn y diweddar John Evans, a Jane ei wraig, David street, Trecynon, Aberdar. Pregethodd y Parch. W. James, B. A., a chladdwyd yn y *Cemetery*.

Mai yr 21ain, yn 32 mlwydd oed, Mrs. Evans, gwraig y Parch. John Evans, B. A., *curad* Burry Port, a merch Mr. a Mrs. Evans, Tanycoed, Llangeler, gan adael priod a phedwar o blant bychain yn nghyd â lluaws o berthynasau anwyl i alaru ar ei hol. Claddwyd ei gweddillion marwol yn mynwent eglwys Llandysul. Yr oedd Mrs. Evans yn un a gerid ac a berchid yn fawr yn ei bywyd, ac ni a hyderwn fod marwolaeth wedi bod yn elw iddi. Tad yr amddifaid a ymgeleddo ei rhai bychain, anwyl, ac a'u harweinio yn ei law i dir di-angau teyrnas nef.

Dydd Sadwrn, Mehefin 9fed, 1877, Margaret Bowen, Plas Newydd, yn 73 mlwydd oed. Cafodd yr ymadawedig iechyd rhagorol yn ystod ei bywyd maith hyd yn ddiweddar. Dechreuodd y babell ymddattod yn fwy cyflym er's rhyw 12 mis yn ol, ac ni pheidiodd hyd nes gwneuthur ei waith yn effeithiol ar y dydd crybwylledig. Genedigol ydoedd o'r man hwn; merch ydoedd i Griffith Williams, Gellionen-ganol, un o'r cedyrn a safodd i fyny o blaid y ffydd Undodaidd yn Gellionen, pan y bu yn cael ei bygwth, oddeutu yr amser y daeth y diweddar Barch. J. James i weinidogaethu yn y lle. Bu yr ymadawedig er yn blentyn mewn cyssylltiad â'r achos, a gwelir eu heisieu yn yr eglwys yn hir. Gosododd esampl dda o flaen ei phlant mewn pob rhinwedd, dyfalbarhaodd yn ystod ei hoes i wneuthur yr hyn a allasai o ddaioni; daliodd yn gadarn o blaid y ffydd, ni chiliodd yn ol hyd y diwedd. Gobeithiwn y bydd i'w chydmhar oedranus gael ymfoddloni i'r drefn, ac ymhyfrydu yn y meddwl ei bod wedi ei flaenu ond am ychydig, a bydd iddynt etto gael ail-gyfarfod mewn gwlad well. Claddwyd hi yn hen gladdfa y teulu yn Gellionen ar y Mercher canlynol, pryd y gweinyddwyd ar yr achlysur, i dyrfa luosog o gyfeillion a pherthynasau yr ymadawedig, gan weinidog y lle. Heddwch i'w llwch.—J. Evans.

Gorphenaf 11eg, o'r darfodedigaeth, John Davies, Caeronen, Cellan, yn 23 mlwydd oed. Yr oedd yn ddyn ieuanc o alluodd meddyliol cryfion, ond pallodd ei nerth corfforol er's tua dwy flynedd yn ol. Yr ydym yn deall ei fod wedi pasio yn *Excise Officer*, a chroes iawn oedd ganddo gael ei analluogi i wasanaethu ei swydd, ond felly y rhyngodd bodd i Dduw. Dydd Sadwrn canlynol i'w farwolaeth gosodwyd ef i huno yn mynwent capel Caeronen. Gwasanaethwyd ar ddydd ei gladdedigaeth gan y Parch. R. C. Jones, yn cael ei gynorthwyo gan y Parchedigion D. Evans, B. A., Maesymeillion, a T. Thomas, Llanfair. Gwenau y Tad mawr fyddo ar y rhai fuont dyner wrth ein brawd ieuanc yn ei gystudd.

Barddoniaeth.

ANERCHIAD PRIODASOL

I'r Parch, William James, B. A., o Aberdar, a Miss Evans o'r Cefn (Gorphenaf 10fed, 1877).

Mawr boed eich llwydd a mawr eich hedd
O'ch glân briodas hyd eich bedd ;
A'r ffurf ond arwydd gwir a nôd
Mai un eich bywyd fydd a'ch bod.

Aeth mebyd heibio gyda'i lu
Difyrion, a'i ddedwyddwch cu,
A daeth yr awr i chwi eich dau
O ddifrif fyned dan yr iau.

Iau, nid rhy drom, ond hawdd ei dwyn,
Lle calon bur a thymher fwyn ;
Lle awydd fo rhwng deuddyn call
Am gynorthwyo'r naill y llall.

Ond iau hi fydd o ymdrech mawr,
A phryder tywyll ambell awr ;
Daw oriau tristwch dros eich pen,
A chewch y nefoedd las dan len.

Ond pan fo calon un yn llwfr
Ac yn ymollwng megys dwfr ;
Y llall a chysur boed gerllaw
Gan wel'd y nef yn agor draw.

O gylch eich traed yn ddyddan blaid
Plant tyner chwariont yn ddibaid,
Nes teimloch pan ar fyn'd i'r ne'
Y cwyd eich plant i lanw eich lle.

W. T.

DYHUDDIANT Y DDAU WEINIDOG UNDODAIDD

A orchfygwyd gan yr hen ryfelwr enwog, Cupid, yn Aberdar, yn y flwyddyn 1877.

Cupid ! och fi ! y bachgen drwg,
Rho heibio'th saethau llym ;
Cywirdeb yn dy fwa sydd
Ac yn dy fraich mae grym.

Mi deimlais inau lymdra saeth
Y bawgi hynod, gynt ;
Ac heibio i'r ddau weinidog daeth
O'r diwedd, ar ei hynt.

Hen feiden oedd ei fam, Semêl,
A'i dad oedd dwyllwr gau ;
A rhyfedd fel mae'r mab ei hun
Yn dwyn nodweddau'r ddau.

Tybir dylasai tewdra dysg
Y Brodyr, gadw draw
Y saeth, a gyru'r saethwr chwim
I gilio 'nol mewn braw.

Ond druain gwyr ! mae'r gelyn hwn
Fel angau noethlwm erch,
Ni thry yn ol er dysg—er dawn—
Er gweddi mab a merch.

A Samson fawr, o hanes hen,
Y cawraidd wr, a gaed
Yn plygu megys baban gwan
Yn isel wrth ei draed.

Pob llwydd i Jones—pob llwydd i James,
A'u dwy angyles fwyn ;
Dedwyddwch lywio'u preswylfeydd,
Anaml y byddo cwyn.

Ac, fel mae'r beirdd yn arfer rhoi,
Rho'f finau i'r pedwar llon,
Fyd gwyn, digymysg—yna nef,
'Rol gado'r ddaear hon.

JENKIN HOWELL,
Heb genad y Gol.

GWAITH I'R BEIRDD.

Trefnu yr isod yn englyn.

Siams, Shon, Tomas, Rhys, Gwilym,
Tomas, newydd, gwlwm, fu'n,
J fodrwy, ni, edrych, i, sydd,
llonydd, emydd, at, am, aur, 'r un.

G.

YSPRYD Y GWANWYN.

Trist, trist oedd fy nghalon, ond yspryd y gwanwyn
Sydd dros fy yspryd oedd yn dawel yn disgyn ;
Anadla'n yr awyr, 'mhob man gwna ymddangos,
Gan ddweyd fod i'n gariad a hedd etto'n aros.

Sancteiddia'n trallodau, nad faint f'ont dan gysgod,
A gobaith awgryma 'nol angeu a'r beddrod ;
Os gall dim daearol ddwyn nefoedd i'r golwg,
Yn yspryd y gwanwyn fe'i gwelir yn amlwg.

YR HAUL.

O seirian Haul, wyt frenin hardd
Ar orsedd fawr yr wybren fry ;
A holl brydferthwch anian chwardd,
O dan dy heirdd belydrau di ;
Fe gilia'r ser a'r lloer ddinam
O'n golwg ni pan ddaw yn ddydd ;
A chyda'r wawr hwy roddant lam,
Dy olau di rhy danbaid sydd.

Mae'n hardd gwel'd bysedd cain y wawr
Yn treiddio trwy y cymyl bàn ;
Ond harddach gwel'd yr haul fel cawr,
Yn dod o'r gorwel bell i'r lan ;
Tydi, O ! haul wyt ddarlun byw
O gampwaith yr Anfeidrol Fod,
Penadur oesol wybren wiw,
Lamp Duw trwy'r gwagle'n myn'd a dod.

Cathelid. L. HOPKINS.

ENGLYNION COFFADWRIAETHOL

Ar ol y diweddar Mr. Evan Griffiths, Maelwr, Aberdar. (Cydfuddugol a'r eiddo Dewi Wyn o Essyllt, yn Eisteddfod Freiniol y Carw Coch, Gorphenaf y 7fed, 1857.

Gwelyddwyd y goleuddoeth, brif Faelwr,
Arweiniwr yr anoeth,—
E. Griffi's ddewr, graffus, ddoeth,—
Ag urddas Cristion geirddoeth.

Tirionus gâr trueiniaid,—a noddwr
Ein heiddil amddifaid,
Rhoi yn rhwydd i'r rhai'n eu rhaid,
Oedd anwyl wledd ei enaid.

I wan a llesg, rhag newyn llwyd,—rhoes
Ac i'r sawl drallodwyd, [help ;
O'i rinwedd, i bawb rhanwyd,
Yn nydd eu baich, nawdd a bwyd.

Twr o gysur têr, rhag eisiau, —hynaws
I weinion dan groesau ;
Câr fu hwn idd eu cryfhau
Dàn wewyr, neu dyn waëau.

Un hefyd oedd, mewn nifwl,—i luoedd
Yn lewyrch di-gwmwl ;
Melusaf wledd ei feddwl,
Athraw doeth, oedd coethi'r dwl.

I farn ein doeth Frenin da,—yn iachus,
Da hoenus dihuna ;
O'i wely cwyd, a'i alw ca
I ddwyfol wledd Iehofa.

CYNONWYSON.

MYFYRDOD

Ar foreu Sul y Blodau, ychydig oriau cyn marwolaeth fy hynaws dad.

O fy nhad ! wr mad, ymedy—yn glau,
Trwy y glyn mae'n tramwy ;
Ei gorff i'w argel wely
Bob mynud yn symmud sy.

Mae'n gorphwys ar bwys y bedd,—a'i olwg
Yn gwylio ei ddyfnfedd ;
Oh dear me ! pryder a'm medd
Yn sydyn uwch ei sadwedd.

Tad dinam a mam fyth mwy—ni welaf,
Na'u hwylus gynnorthwy ;
Am well gwlad trwy'r gul adwy,
Ar hynt hir, myn'd ddar'ynt hwy.

I'r fonwent yr âf finau,—i astud
Eistedd ger eu beddau ;
'N y fan hon caf fwynhau
Yn ddiddig fy holl ddyddiau.

GLASWALCH.

Adwy welir yn ei deulu,—ond cofier,
Duw cyfiawn wnai'i threfnu ;
Duw a ddaeth â'r adwy ddu,
Duw fo'n ei gwneyd i fyny.

AYRONIA.

PWY GLEDDIR GYNTAF ?

Pwy gleddir gyntaf yn y newydd fan ?
Ai'r ieuanc hoyw, ynte'r baban gwan ?
Neu, o dan goron o benllwydni, yr hen ?
Neu'r rhian dlos fu â swynion yn ei gwên ?
Yr ateb hwn nis gall ond Amser roi—
I bwy'r dywarchen gyntaf gaiff ei throi.

Ond O ni'm dawr ! pwy bynna'r blaenffrwyth fydd,
Ein Tad orphwysfa dawel iddo rydd.
Y blodau tyner dyfant uwch ei ben,
Gan felus yfed maethlawn wlith y nen ;
I'r dystaw fedd ni chyrhaedd sèn y ffol,
A rhaib erlidwyr droi'r am byth yn ol.

Pwy gleddir gyntaf ? Adeg ddaw, nad pwy,
Pan hoff serchiadau llawer yn y plwy'
Ganolant yn v fan lle'n ceraint glwys
I huno roed o dan y wyryf gwys ;
Ymwelwyr ddont o agos ac o bell
At feddau'r rhai ynt yn y wynfa well.

Pwy gleddir gyntaf ? Duw a bia'r drefn ;
Y bywyd roes, yn ol ei rhown drachefn.
Ein dyled penaf ydyw gweithio'n daer
Dros achos Duw, tra mhlith y byw ein caer ;
Ac Ef rydd ini'n fedd ryw anwyl le,
Ar fin y Clettwr fad, neu mhell o dre.

TYRTAEUS.

JENKIN HOWELL, ARGRAFFYDD, ABERDAR.

TALIADAU.

☞ Cydnabyddir y Taliadau yn y Rhifyn nesaf.

GWELLIANT GWALLAU.

Yn YMOFYNYDD Gorphenaf, tud. 114, llin. 16, yn lle *a chyfiawnhawyd ef*, darllener *a sicrhawyd ef;* tud. 118, cofiant Sarah Lloyd, darllener, "Tystiai ein hen chwaer wrthym yn y modd mwyaf difrifol *ychydig cyn ei marwolaeth, iddi deimlo cyssuron gwir grefydd yn fywiol* yn ei henaid," &c.

Yn Nghyfres y Tanysgrifiadau, i fod yn hollol gywir, dylai fod—

Per Jenkin Jones, Currier, Llandilo:—
Casgliad yn yr Onenfawr ac ychydig gyfeillion, £2 17 0
(Ac yna yr enwau fel o'r blaen.)

PRIF-YSGOL LLUNDAIN.—Yn yr arholiad diweddaf am ymaelodiaeth *(matriculation)*, ymddengys enw Mr. John Evans, mab Mr. John Evans, Cwmmeudwy, Llandyssul, yn rhestr yr ymgeiswyr a rifwyd yn yr *Honours Division*. Pasiodd y nifer o 328 yr arholiad: 75 gydag *honours*, sef yn oreu o'r holl nifer; 222 yn y dosparth cyntaf, a 31 yn yr ail. Mae Mr. Evans yn bresenol yn efrydydd yn ngholeg y Brifysgol yn Aberystwyth, lle y deil ysgoloriaeth uchel; oud bu am flynyddau yn flaenorol o dan ofal y Parch. Wm. Thomas, Llandyssul. Dywedwn wrth y gwr ieuanc gobeithiol hwn nid yn unig, "Dal yr hyn sydd genyt fel na ddygo neb dy goron di," ond hefyd, "Dring rhagot."—*Cyfaill.*

Y LLYFR EMYNAU NEWYDD.

MAE bron bod yn barod i'r wasg, a byddai yn ddymunol fod pawb yn anfon eu harchebion i mewn gynted ag y byddo'n bossibl, gan na fwriedir argraffu ond nifer pennodedig. Bwriedir rhoddi saith copi am bris chwech. Dysgwylir na fydd ei bris ddim dros ddau swllt.

Yn awr yn barod, Pris 3s. a 6ch., wedi ei rwymo yn hardd,

AIL ARGRAFFIAD O

TELYN DEWI,

SEF GWAITH PRYDYDDAWL Y PARCH. DAVID DAVIS,

GYNT O GASTELL-HYWEL, CEREDIGION.

Fel mae yn hyspys i lawer fod y Gwaith uchod allan o Brint er's blynyddau, a diamheu y bydd ymddangosiad yr Ail Argraffiad hwn yn hyfrydwch ac yn dderbyn iol gan Feirdd a Llenorion Cymru. Y mae yn cynnwys llawer o ddarnau o'i waith nad oeddynt yn yr Argraffiad cyntaf—yn nghyd â Hanes ei Fywyd. a Darlun hardd o'r Awdwr.

Erfynir ar bawb a ewyllysiant gael copi o'r Gwaith uchod anfon eu henwau yn ddioed i'r cyhoeddwr, J. DAVIS, Argraffydd, Llanbedr.

AT EIN DARLLENWYR.

TELERAU.—Un copi, 3c., gyda'r post 3½.; ar dri chopi a rhagor telir y cludiad.

Anfoner mewn stamps neu order at—"Rev. W. James, B.A., 36, Gadlys Street, Aberdare."

☞ *Pob Archebion a Gohebiaethau i'w hanfon yn gyfeiriedig,*—

The Editor of "Yr Ymofynydd,"
Mount Pleasant Garden,
Aberdare.